

Gwneud y Gorau o Gyfraniad y System Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol i Gyflawni Nodau Cenedlaethol Cymru

**Adolygiad o systemau ar gyfer monitro a gwella effeithiolrwydd addysg ôl-orfodol
yng Nghymru**

Yr Athro Harvey P. Weingarten

Ebrill 2018



ISBN digidol 978-1-78937-295-3

© Hawlfraint y Goron 2016

WG35127

Tabl Cynnwys:

I. Crynodeb gweithredol.	Tudalen 3
II. Rhagarweiniad.	Tudalen 5
III. Y system bresennol.	Tudalen 6
IV. Beth sydd ar goll yn y system bresennol ac sydd ei angen fwyaf mewn proses newydd?	Tudalen 6
V. Pa feysydd gweithgarwch ddylai'r system monitro perfformiad eu mesur?	Tudalen 7
VI. Rôl y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru (CADYG) yn y broses monitro perfformiad.	Tudalen 11
VII. Dewis dangosyddion.	Tudalen 13
VIII. Dadl gloi ar gyfer y broses newydd arfaethedig.	Tudalen 15
IX. Crynodeb o'r argymhellion.	Tudalen 15
X. Atodiad 1. Cylch gorchwyl.	Tudalen 18
XI. Atodiad 2. Papur trafod cynharach.	Tudalen 20

I. Crynodeb Gweithredol:

Diben yr adroddiad hwn yw argymhell proses y gall Llywodraeth Cymru ei defnyddio i fonitro ac asesu effeithiolrwydd ei system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO), gyda'r nod o wella ei pherfformiad a sicrhau bod system AHO yn y sefyllfa orau i gyfrannu cymaint â phosib at gyflawni nodau blaenoriaeth uchel Cymru.

Nid yw'r prosesau presennol yng Nghymru ar gyfer monitro a gwerthuso ei system AHO yn wahanol i rai gwledydd eraill. Y diffyg mwyaf allweddol a difrifol yn y system gyfredol, fodd bynnag, yw ei hanallu i ddarparu'r hyn y mae'r llywodraeth angen ei wybod fwyaf - yn benodol, darlun cyfannol clir o gyfraniad pob sefydliad tuag at gyflawni'r blaenoriaethau pwysicaf Cymru a sut mae'r system AHO, yn gyffredinol fel system, yn perfformio a pha mor dda y mae'n helpu'r wlad tuag at gyflawni ei hamcanion dymunol. Heb y wybodaeth hon, ni all y llywodraeth na'r sefydliadau wneud penderfyniadau gwybodus nac wedi'u llywio gan dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd eu polisiau neu raglenni.

Mae'r adroddiad yn cynnig dwy strategaeth allweddol, a fynegir mewn 10 argymhelliad penodol, i unioni'r diffyg hwn.

Yn gyntaf, datblygu adnodd perfformiad sy'n gwerthuso cyfraniad sefydliadau unigol a'r gyfundrefn yn ei chyfanrwydd mewn chwe maes sy'n adlewyrchu'r amcanion blaenoriaeth uchaf yng Nghymru.

Y meysydd hyn yw:

- i) ehangu mynediad i addysg AHO;
- ii) gwella effaith economaidd;
- iii) gwella ymchwil ac arloesi;
- iv) cynnal sefydliadau a systemau cynaliadwy;
- v) dysgu â gwerth ychwanegol;
- vi) hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Mae'r chwe maes yn hollbwysig ac yn hanfodol i gyflawni'r nodau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu mynegi sef gwell ffyniant economaidd, mwy o swyddi a chymdeithas Gymreig sifil, gadarn a gwydn.

Yn ail, argymhellir bod y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru (CADYG) yn derbyn mandad i reoli'r broses monitro perfformiad hon. Prif gyflawniadau blyneddol CADYG fyddai:

- i) paratoi adroddiadau sefydliadol cryno unigol i ddarparu asesiad cyfannol o berfformiad pob sefydliad AHO yn y chwe maes a nodir uchod ar gyfer y sefydliad a'r llywodraeth, ac

- ii) adroddiad ar y system i gyd sy'n darparu asesiad o gyfraniad a chynnydd y system AHO yn ei chyfanrwydd tuag at gyflawni nodau allweddol Cymru, ac ar sail y dadansoddiad hwnnw yn argymhell newidiadau polisi, cyllid neu newidiadau i raglenni i gyflymu a hybu a gwneud y gorau o gyfraniad y system AHO at yr amcanion allweddol hyn yng Nghymru.

Gellir gweithredu'r argymhellion hyn ar unwaith gan fod elfennau o'r system fonitro hon eisoes ar waith. Hefyd, oherwydd y bensaernïaeth a'r broses arfaethedig ar gyfer y broses monitro a gwerthuso perfformiad flynyddol, maent hefyd yn cynorthwyo CADYG i fodloni a chyflawni'r prif swyddogaethau a chyfrifoldebau a roddwyd iddo drwy fandad. Yn olaf, ac yn bwysicaf oll, bydd yr argymhellion hyn, o'u gweithredu, yn gwneud iawn am y diffyg mwyaf amlwg a difrifol yng nghyfundrefn monitro a gwella perfformiad cyfredol Cymru gan y byddai'n darparu'r sylfaen dystiolaeth i benderfynu pa mor effeithiol yw'r system AHO i'r llywodraeth a'r sefydliadau, gan lywio penderfyniadau sy'n angenrheidiol i wella effeithiolrwydd y system a gwneud y gorau o gyfraniad pob sefydliad a'r system gyfan at yr amcanion pwysicaf yng Nghymru.

II. Rhagarweiniad:

Fe'm comisiynwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i gynnal adolygiad o'r ffordd y mae Cymru yn monitro ac yn asesu effeithiolrwydd ei system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO). Fel y nodwyd yn y Cylch Gorchwyl, bydd yr adolygiad yn rhoi ystyriaeth i'r mecanweithiau a ddefnyddir bellach i fonitro a gwerthuso perfformiad sefydliadau yn y system AHO ac effeithiolrwydd y prosesau hyn. Hefyd, bydd yr adolygiad yn awgrymu sut y gall gwell proses o fonitro a gwerthuso fod yn fwy cydnaws â phum egwyddor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'u hybu, yn enwedig yng ngoleuni ymateb y llywodraeth i Adroddiad Hazelkorn yn ddiweddar. Yn olaf, ac efallai'n bwysicaf, bydd yr adolygiad yn cynnwys argymhellion ynghylch cyflwyno a defnyddio proses fonitro a gwerthuso newydd, sydd ar gael i'r cyhoedd, ar gyfer y sector AHO, a fydd yn arwain at welliant yn y system hon ac yn sicrhau ei bod yn cyfrannu gymaint â phosibl at gyflawni nodau cenedlaethol Cymru.

Fel rhan o'r adolygiad hwn, rhoddir ystyriaeth i fecanweithiau y gellir eu defnyddio ym mhob rhan o'r system AHO, gan gynnwys y sector prifysgolion, colegau addysg bellach, darparwyr prentisiaethau a chanolfannau dysgu oedolion. Mae'r Cylch Gorchwyl cyfan ar gyfer yr adolygiad hwn i'w gael yn Atodiad 1.

Dechreuodd fy nadansoddiad gydag ymchwil ddesg - adolygu amrywiaeth eang o ddogfennau sy'n disgrifio sut mae Cymru yn rheoli ac yn adolygu ei system AHO ar hyn o bryd, yn benodol, nifer o adroddiadau a chatau diweddar gan lywodraeth Cymru mewn perthynas â sawl elfen o'i system AHO. Mae'r rhain yn cynnwys Adroddiad Hazelkorn, Adroddiad Diamond, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a dogfennau ymgynghori ac adborth sy'n ymwneud â'r rhain, gan amrywiaeth o sefydliadau sy'n rhan o'r system AHO ar hyn o bryd, gan gynnwys Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru ac Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru. Yn ogystal, edrychais ar wefannau sefydliadau perthnasol, megis yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (Cymru), Estyn, Prifysgolion Cymru, Colegau Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

(CCAUC). Ar ymweliad cychwynnol â Chymru (Hydref 2017), fe wnes i gyfarfod â nifer o unigolion a oedd yn wybodus ynghylch system AHO Cymru ac yn rhan ohoni. Ar sail y rhwyngweithio hwn, drafftiais bapur ymgynghori a thrafod (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y “papur trafod”) a oedd yn rhoi’r cefndir, yn trafod sawl mater o bwys, ac yn cynnig argraffion, mympwyon ac awgrymiadau cychwynnol ynghylch sut olwg allai fod ar system monitro a gwerthuso ddefnyddiol ac ymarferol ar gyfer y system AHO. Ceir y papur trafod hwn yn Atodiad 2. Mae’r papur trafod cynharach hwn yn gydymaith naturiol a defnyddiol i’r adroddiad terfynol hwn ac i’r argymhellion penodol a gynigir ynddo. Dylai darllenwyr gyfeirio at y papur trafod cynharach hwn am drafodaeth hwy ynghylch rhai o’r materion a’r sylwadau sy’n sail i’r argymhellion penodol a wneir yn yr adroddiad terfynol hwn. Mae’r adroddiad terfynol yn canolbwyntio’n fwy uniongyrchol ar y materion penodol a’r cwestiynau a ofynnir yn y Cylch Gorchwyl, ac ar gyfres o argymhellion sy’n cynnig y dylid cynllunio proses ac offeryn i fonitro a gwerthuso perfformiad system AHO Cymru.

Ar ail ymweliad â Chymru (Ionawr 2018), fe wnes i gyfarfod eto â’r prif unigolion perthnasol sy’n cyfrannu at y system AHO ac yn rhan ohoni, a chefais gyfle i gyfarfod ag arweinwyr colegau Cymru a phrifysgolion Cymru, er mwyn cael adborth a chynghor ynghylch y syniadau a’r awgrymiadau cychwynnol a ddisgrifiwyd yn y papur trafod.

Hoffwn ddiolch i bawb a ddaeth i gyfarfod â mi am eu hamser a’u cyfraniad hael at fy addysg ac at yr adroddiad hwn. Er y gwahaniaeth barn, yr hyn oedd yn eglur yn yr holl rwyngweithio hwn oedd safon uchel y bobl yn y system AHO yng Nghymru - yn y sefydliadau, y llywodraeth ac mewn asiantaethau - a’u hymrwymiad brwd i addysg ôl-orfodol a’r myfyrwyr sydd yn y system, a’u parodrwydd i ystyried sut y gellid gwella system AHO Cymru a gwneud hyd yn oed yn well o ran helpu myfyrwyr a Chymru i gyflawni eu nodau.

Cynigiaf yr adroddiad terfynol hwn yn yr ysbryd hwnnw - yn ddadansoddiad ac yn gyfres o argymhellion ynghylch y ffordd orau o fonitro a gwella effeithiolrwydd y system AHO yng Nghymru.

III. Y system bresennol:

Fel yr awgrymais yn y papur trafod cynharach, nid yw’r materion a’r ddynmeg yr wyf wedi dod ar eu traws yng Nghymru yn sylweddol wahanol i’r rheiny a welir mewn awdurdodaethau eraill, sydd hefyd yn ystyried sut i fonitro a gwerthuso perfformiad eu systemau ôl-uwchradd.

Byddwn yn dod i’r un casgliad cyffredinol ynghylch y system y mae Cymru yn ei defnyddio ar hyn o bryd i fonitro AHO. Fel sy’n digwydd mewn nifer o awdurdodaethau eraill, mae’r system bresennol yn cynnwys cymysgedd o wahanol sefydliadau ac asiantaethau, sy’n rheoleiddio, yn monitro ac yn arolygu gwahanol elfennau o’r system AHO. Mae’r rhain yn cynnwys y llywodraeth ei hun, Estyn sy’n arolygu sefydliadau mewn sawl sector o’r system AHO, a CCAUC, drwy’r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, sy’n monitro ac yn gwerthuso’r prifysgolion. Fel arfer, bydd y llywodraeth yn derbyn yr adroddiadau amrywiol hyn yn y pen draw. Nid yw’r brithwaith hwn o ran adroddiadau yn

annhebyg i'r hyn a welir mewn awdurdodaethau eraill. Mae Estyn, CCAUC a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yn sefydliadau sydd wedi hen sefydlu ac sydd â phrosesau pendant a ddeallir yn dda, ac maent yn cyflawni eu mandadau o ran monitro a gwerthuso yn broffesiynol ac yn ddisgybledig.

Nid oes amheuaeth gennyf y byddai adolygiad cynhwysfawr o'r holl adroddiadau a fynnir gan sefydliadau AHO mewn blwyddyn yn datgelu rhywfaint o afreidrwydd a dyblygu. Fodd bynnag, mae'r rhain yn ail faterion, a gellir ystyried comisiynu'r adroddiad hwn yn gyfle i symleiddio'r systemau monitro presennol, os nad dim arall. Fodd bynnag, y prif fater a'r mater pwysicach yw'r hyn sydd ar goll o'r prosesau monitro a gwerthuso presennol.

IV. Beth sydd ar goll yn y system bresennol ac sydd ei angen fwyaf mewn proses newydd?

Mae'r system monitro perfformiad bresennol yn dameidiog. Mae pob asesiad a wneir bellach yn datgelu un darn o'r darlun, fel arfer, un elfen benodol o sefydliad unigol. Fodd bynnag, y darn hollbwysig sydd ar goll yw proses sy'n rhoi'r darnau amrywiol at ei gilydd, er mwyn i'r llywodraeth a'r cyhoedd gael darlun cyfannol, clir ac ystyrlon o'r canlynol:

- ☐ Perfformiad cyffredinol sefydliadau unigol
- ☐ Perfformiad y system AHO yn gyffredinol, a
- ☐ Chynnydd tuag at nodau cyhoeddus â blaenoriaeth uchel

Mae'r rhain yn ddiffygion sylweddol. Ni all y llywodraeth wneud penderfyniadau gwybodus a defnyddiol ynghylch sefydliadau unigol oni bai ei bod yn gweld y darlun cyfan o'r ffyrdd amrywiol y mae'r sefydliad yn cyfrannu at y gyfres o nodau sydd bwysicaf i'r llywodraeth, myfyrwyr, y cyhoedd a'r sefydliad ei hun. Ni ellir sylweddoli'r cyfaddawdau y mae sefydliad yn eu gwneud, neu effeithiolrwydd y strategaethau y mae sefydliad yn eu dilyn, oni bai y ceir darlun cyfannol o'r sefydliad yn gyffredinol. Nid yw ystyried nifer y cofrestriadau neu gyfraddau graddio yn unig, neu ganlyniadau adolygiad asesu ansawdd (ni waeth pa mor drwyadl), yn rhoi darlun llawn o'r sefydliad. Yn yr un modd, nid yw'n bosibl i lywodraeth asesu effeithiolrwydd neu ddigonolrwydd ei pholisïau, ei rheoliadau, ei harferion a'i rhaglenni y bwriedir iddynt ddiwygio ei system AHO, oni bai y caiff ddadansoddiad clir a pharhaus o'r cynnydd y mae'r system AHO yn ei chyfanrwydd yn ei wneud tuag at gyflawni nodau cenedlaethol diffiniedig â blaenoriaeth uchel.

Fel y trafodais yn y papur trafod cynharach, mae Cymru yn ffodus ac roedd yn rhagweledol am ei bod eisoes wedi cyflwyno ei gweledigaeth ynghylch sut olwg fyddai ar Gymru ffyniannus yn y dyfodol. Dyma ddarn hanfodol a gollwyd gan nifer o lywodraethau; nid felly Cymru. Mae llywodraeth Cymru hefyd yn sylweddoli bod cyfraniad gan y system AHO yn hanfodol i gyflawni'r nodau hyn. Y darn sydd ar goll o'r system fonitro bresennol yw proses i glymu'r darnau amrywiol o wybodaeth a gasglwyd

eisoedd ynghyd, mewn ffordd effeithlon, er mwyn monitro cyfraniad y sefydliadau a'r system AHO yng Nghymru at gyflawni'r amcanion hyn.

Mae gweddill yr adroddiad hwn yn disgrifio system monitro perfformiad gymharol syml ac effeithlon, sy'n rhoi'r wybodaeth y mae ei hangen ar y llywodraeth i fonitro, asesu a gwella cyfraniad y sefydliadau a'r system AHO at gyflawni'r nodau cenedlaethol a bennwyd ganddi.

Argymhelliad 1: Dylai Cymru ddatblygu system o fonitro a rheoli perfformiad sy'n rhoi asesiad cynhwysfawr a chyfansoddi o gyfraniad sefydliadau AHO unigol a'r system AHO yn ei chyfanrwydd at gyflawni nodau cenedlaethol Cymru.

V. Pa feysydd gweithgarwch ddylai'r system monitro perfformiad eu mesur?

Fel y trafodwyd yn y papur cynharach, er y gellid mesur unrhyw beth bron yn y system AHO (ac mae rhai systemau rheoli perfformiad yn ceisio gwneud hynny'n union), dylai system rheoli perfformiad ddefnyddiol ac ystyrlon fesur yr ychydig bethau sydd bwysicaf i'r llywodraeth. Yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae llywodraeth Cymru wedi nodi ei saith nod llesiant:

- ☐ Cymru lewyrchus;
- ☐ Cymru gydnerth;
- ☐ Cymru iachach;
- ☐ Cymru sy'n fwy cyfartal;
- ☐ Cymru o gymunedau cydlynus;
- ☐ Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a
- ☐ Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi'n glir fod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i fonitro, rheoli ac adrodd ynghylch eu gweithgareddau sy'n ceisio cyflawni'r amcanion hyn.

Fel y trafodwyd yn y papur trafod cynharach, mae'n anodd cynllunio offeryn perfformiad ar y lefel mynegiant a ddefnyddir yn y Ddeddf. Fodd bynnag, mae chwe maes perfformiad, sy'n benodol ac yn berthnasol i'r system AHO, ac sy'n rhan annatod o gyflawni'r nodau hyn ac yn allweddol i hynny. Rwyf yn argymhell y dylid cynllunio offeryn perfformiad sy'n monitro ac yn mesur perfformiad a chyflawniad yn y chwe maes hyn sydd â blaenoriaeth uchel, sef:

- ☐ Ehangu mynediad
- ☐ Effaith economaidd
- ☐ Arloesi ac ymchwil
- ☐ Cynaliadwyedd sefydliadol

- ❑ Dysgu â gwerth ychwanegol
- ❑ Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Nid yw'r chwe maes hyn yn annibynnol ar ei gilydd. Yn hytrach, mae rhai yn dibynnu ar ei gilydd, ac mae cyswllt anorfod rhwng rhai ohonynt, megis effaith economaidd ac ymchwil/arloesi.

Ehangu mynediad: Mae'r system AHO yn hanfodol i gynhyrchu'r gweithwyr medrus iawn ac addysgedig a fynnir gan yr economi a gweithleoedd yn yr oes sydd ohoni. Mae hyn yn cynnwys pobl ym mhob rhan o'r system AHO, o angen enbyd am ragor o grefftwyr i fyfyrwyr lefel doethuriaeth. Felly, nod allweddol yw bod rhagor o bobl yng Nghymru yn cael AHO (cyfraddau cyfranogiad a chyrhaeddiad uwch). Yr un mor bwysig, os nad yn bwysicach, fodd bynnag, yw'r angen i ehangu mynediad fel bod pawb yn cael yr un cyfle i fynychu ac i lwyddo mewn AHO. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i unigolion a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y system AHO ar hyn o bryd; mewn rhai ffyrdd, yr unigolion a'r grwpiau hyn sy'n cael y budd economaidd a chymdeithasol mwyaf o AHO.

Effaith economaidd: Mae llywodraeth Cymru, fel pob llywodraeth arall y gwn i amdani, eisiau i'w system AHO lywio twf a ffyniant economaidd a rhoi'r sgiliau a'r addysg i'w dinasyddion fanteisio i'r eithaf ar economi sy'n gynyddol seiliedig ar wybodaeth, ac elwa arni. Dyma'r prif resymau y mae llywodraethau yn cefnogi addysg gyhoeddus. Mae gan sefydliadau yn y sector AHO y gallu a'r modd i gael effaith economaidd mewn ffyrdd gwahanol. Yn achos pob un ohonynt, gwneir hyn drwy gynhyrchu graddedigion sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth i gefnogi, denu a chreu swyddi da. Mae'r cyflenwad dibynadwy a chyson o gyfalaf dynol addysgedig iawn - talent - yn atyniad pwysig i ddiwydiannau a chwmnïau. Mae talent yn bwysig o ran pennu cystadleurwydd economaidd byd-eang. Mae hyn yn wir ar draws y sbectwm AHO - prentisiaid a myfyrwyr PhD fel ei gilydd. Mae sefydliadau AHO hefyd yn cael effaith economaidd drwy ddefnyddio a chreu gwybodaeth newydd, a chefnogi cynnyrch a gwasanaethau arloesol. Mae sefydliadau hefyd yn llywio effaith economaidd drwy eu gweithgareddau mewn cymunedau lleol a rhanbarthol. Bydd y ffyrdd penodol y gall sefydliad lywio twf a ffyniant economaidd, ac y bydd yn gwneud hynny, yn amrywio gan ddibynnu ar fandad, cenhadaeth, cymeriad a lleoliad y sefydliad. Fodd bynnag, dylai pob sefydliad allu dangos pa effaith economaidd y mae'n ei chefnogi ac yn ei hyrwyddo, a maint yr effaith honno.

Arloesi ac ymchwil: Mae natur yr economi heddiw yn dangos pwysigrwydd arloesi ac ymchwil i gymdeithas sy'n fywiog yn gymdeithasol ac yn llewyrchus yn economaidd. Mae arloesi ac ymchwil yn cynnwys nid yn unig creu gwybodaeth newydd, ond y gallu i dderbyn a defnyddio arloesedd a chanfyddiadau ymchwil a gynhyrchwyd yn rhywle arall. Mae Adroddiad Reid yn canolbwyntio ar ddadansoddi cyflwr arloesi ac ymchwil yng Nghymru a sut y gellid gwella hynny. Mae'r adroddiad hwn yn adolygu'r ecosystem arloesi ac ymchwil yng Nghymru, ac yn trafod sut y gallai sefydliadau AHO gwahanol wella eu perfformiad o ran arloesi ac ymchwil. Bydd y dadansoddiad hwn yn ddefnyddiol

i lywio'r dangosyddion penodol a ddewiswyd i fonitro a gwella perfformiad o ran arloesi ac ymchwil. Gan ddibynnu ar y sefydliad, gall ei weithgareddau, ei ymdrechion a'i nodau o ran arloesi ac ymchwil roi pwyslais ar ddefnyddio neu greu gwybodaeth newydd. Eto, er y gall sefydliadau yn y system AHO fod yn wahanol i'w gilydd o ran sut maent yn cyfrannu at gynnydd mewn arloesi ac ymchwil, dylid disgwyl i bob un ohonynt wneud cyfraniad.

Cynaliadwyedd sefydliadol: Thema ganolog yr adroddiad hwn yw y dylai'r llywodraeth fonitro ac asesu cyfraniad sefydliadau AHO at nodau Cymru sydd â blaenoriaeth uchel. Yn realistig, mae'n anodd iawn i sefydliadau ganolbwyntio ar nodau cenedlaethol os ydynt yn treulio'u hamser yn sicrhau bod eu sefydliad yn hyfyw, eu bod yn gallu talu cyflogau neu dalu'r bil trydan. Mae'r mater hwn, fel y trafodwyd yn y papur trafod cynharach, yn dangos pwysigrwydd system AHO sy'n cynnwys sefydliadau cynaliadwy, sy'n gallu cyflawni eu cenhadaeth academaidd. Yn yr un modd, os bydd sefydliad yn methu, ni fydd hynny o fudd i neb - y myfyrwyr, y cyhoedd, y sefydliad na'r llywodraeth. Y ffordd orau o sicrhau cynaliadwyedd sefydliadol yw monitro iechyd ariannol sefydliad yn barhaus ac asesu a yw'n defnyddio ei adnoddau, neu a oes ganddo adnoddau digonol, i gyfrannu yn y ffyrdd a ddisgwylir ganddo.

Bydd rhai yn dadlau bod maes cynaliadwyedd sefydliadol yn wahanol i'r meysydd eraill sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr o chwe maes, oherwydd ei fod yn gyflwr sy'n galluogi cyflawni nodau, neu'n gyflwr sy'n angenrheidiol i wneud hynny, yn hytrach nag yn nod ynddo'i hun. Mae hon yn ddadl deg. Fodd bynnag, mae parhau i fod yn gynaliadwy mor hanfodol i allu sefydliad a system i gyflawni nodau nes ei fod yn haeddu cael ei gynnwys mewn ymarfer monitro perfformiad ac asesu cyffredinol.

Dysgu â gwerth ychwanegol: Fel y trafodwyd yn y papur trafod cynharach, efallai mai un o'r pethau pwysicaf y byddem eisiau ei fonitro, ei werthuso a'i wella yn y system AHO yw a yw'r myfyrwyr yn dysgu'r hyn y mae angen iddynt ei wybod er mwyn gallu llwyddo mewn bywyd ac yn y gwaith. Mae hyn yn gofyn i sefydliadau a'r system gyfleu'r wybodaeth a'r sgiliau y maent yn disgwyl i raddedigion feddu arnynt ac, yn bwysicaf, i fesur a ydynt yn ennill y wybodaeth a'r sgiliau hynny.

Mae sefydliadau yn gwneud gwaith da o ran gwerthuso ennill gwybodaeth - h.y. cynnwys. Fodd bynnag, fel y dadleuwyd yn y papur trafod, y maes dysgu sy'n ymddangos ac sy'n debygol o fod yn bwysicach i'w fesur yw pa un a yw'r myfyrwyr yn ennill set o sgiliau gwybyddol sylfaenol (a elwir weithiau'n sgiliau trosglwyddadwy, neu'n sgiliau bywyd, neu'n sgiliau generig), megis lefel briodol o lythrennedd, rhifedd, meddwl beirniadol, ac ati, sy'n hanfodol i symud drwy fywydau personol a phroffesiynol. Mae lluo o ymarferion sicrhau ansawdd yn y sector AHO; mae gan Gymru gyfran deg ohonynt. Mae'r prosesau hyn yn aml yn mesur mewnbynnau i'r broses ddysgu ac a yw sefydliadau yn defnyddio arferion sy'n arwain at welliant o ran dysgu. Fodd bynnag, yr ymarferion mwyaf blaengar, a'r rheiny sy'n rhoi'r mwyaf o wybodaeth, yw'r rheiny sy'n mesur yn uniongyrchol i ba raddau yr enillir y sgiliau a'r cymwyseddau y nodwyd eu bod yn bwysig ar gyfer swyddi neu ar gyfer bywyd. Fel y trafodwyd yn y papur trafod

cynharach, dull gwerth ychwanegol neu fudd dysgu yw'r modd priodol o ymgymryd â'r mesuriadau hyn, o ystyried amrywiaeth y sefydliadau a'r dysgwyr yn y system AHO.

Mae dulliau cyffrous ac arloesol o fesur dysgu â gwerth ychwanegol yn y Deyrnas Unedig ac mewn lleoedd eraill. Mae gan Gymru gyfle i wneud ei system AHO yn system arloesol, arweiniol a blaengar, os bydd yn cynnwys mesur sgiliau'n uniongyrchol yn ei fframwaith monitro perfformiad, a dyna'r argymhelliad a wneir yma.

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru: Mae'r llywodraeth wedi bod yn glir am ei hawydd i warchod, hyrwyddo a gwella diwylliant Cymru a'r defnydd o'r Gymraeg. Mae pawb yr wyf wedi siarad â nhw yn cydnabod pwysigrwydd y nod hwn ac yn cefnogi ei nod o gynnal cymeriad nodedig Cymru. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud hi'n glir bod gofyn i sefydliadau cyhoeddus adrodd ar eu gweithgareddau i helpu i sicrhau bod y Gymraeg a diwylliant Cymru yn ffynnu. O ystyried y flaenoriaeth uchel a roddir i'r nod hwn, mae'n briodol monitro ac asesu cyfraniad sefydliadau AHO at yr amcan hwn.

Argymhelliad 2: Dylai'r broses a'r adnodd monitro perfformiad, asesu a rheoli ac asesu cyfraniad sefydliadau AHO unigol a'r system AHO gyffredinol mewn chwe maes:

- ☐ Ehangu mynediad
- ☐ Effaith economaidd
- ☐ Arloesi ac ymchwil
- ☐ Cynaliadwyedd sefydliadol
- ☐ Dysgu â gwerth ychwanegol
- ☐ Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

VI. Rôl y CADYG yn y broses monitro perfformiad.

Mae'r llywodraeth yn gweithio i sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru (CADYG). Er fy mod yn gwerthfawrogi bod prif swyddogaethau'r CADYG dan ystyriaeth o hyd, fy nealltwriaeth o'i fandad arfaethedig a'i brif swyddogaethau yn dangos mai hon yw'r ddarpariaeth gywir ar gyfer rheoli'r broses mesur perfformiad.

Cynigiau y dylai'r CADYG orfod darparu dau gyflawniad blynyddol allweddol.

Yn gyntaf, ar gyfer pob sefydliad yn y system AHO, byddai'n gyfrifol am lunio adroddiad sefydliadol sy'n disgrifio cyfraniad pob sefydliad at hyrwyddo'r nodau a nodwyd fel y chwe maes uchod. Yn fy marn i, nid oes angen i bob adroddiad fod yn fwy na rhyw dair tudalen o hyd. Fel y trafodir yn ddiweddarach, mae llawer o'r dangosyddion sydd eu hangen i ddangos cyfraniad sefydliad AHO yn cael eu casglu a'u hadrodd eisoes. Fodd bynnag, byddai adroddiad sefydliadol y CADYG yn ychwanegu gwerth at y mecanweithiau adrodd tameidiog hyn trwy gyflwyno darlun cyfannol o weithgareddau a pherfformiad y sefydliad yn y chwe nod blaenoriaeth uchel hyn, gan gynnwys y cydbwysedd rhwng y meysydd gweithgarwch hyn y mae'r sefydliad wedi'u mabwysiadu i wneud y gorau o'i gyfraniad cyffredinol.

Yn ail, cyflawniad pwysicaf y CADYG fyddai darparu adroddiad blynyddol i'r llywodraeth sy'n disgrifio cyfraniad y system AHO yn ei chyfanrwydd at yr amcan blaenoriaeth uchel ar gyfer Cymru fel y diffinnir uchod. Byddai hyn yn rhoi'r data, y wybodaeth a'r dystiolaeth i'r llywodraeth i asesu'r cynnydd a wneir ac effeithiolrwydd ac effaith y fframwaith, y polisiâu, y rheoliadau a'r rhaglenni yn y system AHO. Y darlun hwn o'r system yw'r hyn sydd ar goll yn awr ac, yn ei absenoldeb, ni all y llywodraeth a'r sefydliadau fonitro ac asesu perfformiad tuag at nodau allweddol. Mae'r adroddiad lefel system yn caniatáu i asesiad gael ei wneud o ddigonolrwydd y cyfeiriad a chyflymder y cynnydd a'r newid.

Mae'r cyfuniad o'r adroddiadau sefydliadol gyda'r gwerthusiad system gyfan yn rhoi gwybodaeth hanfodol i'r llywodraeth a'r sefydliadau sydd ei hangen arnynt i bennu pa mor effeithiol yw'r system AHO a'i gwella.

Fel yr adolygwyd yn y papur trafod, un o ddibenion a chanlyniadau cadarnhaol proses monitro a gwerthuso perfformiad dda yw ei bod yn hyrwyddo newid. Un o ysgogwyr pwerus newid yw datgeliad cyhoeddus. Mae'r llywodraeth eisoes wedi nodi ei hymrwymiad i fod yn agored mewn perthynas â data a gwybodaeth. Felly, mae'n ymddangos yn synhwyrol bod yr adroddiadau hyn yn cael eu gwneud yn gyhoeddus gan y CADYG.

Argymhelliad 3: Dylai'r CADYG reoli'r broses monitro a gwerthuso perfformiad a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

Argymhelliad 4: Dylai'r CADYG weithio gyda sefydliadau AHO i lunio adroddiad sefydliadol byr blynyddol sy'n disgrifio cyfraniad pob sefydliad AHO at gyflawni'r nodau blaenoriaeth uchel y mae'r llywodraeth wedi'u nodi trwy adrodd am y chwe maes blaenoriaeth uchel a ddisgrifir uchod.

Argymhelliad 5: Prif gyflawniad a chyflawniad pwysicaf y CADYG yw adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru sy'n disgrifio cyfraniad cyffredinol y system AHO at gyflawni'r nodau blaenoriaeth uchel y mae'r llywodraeth wedi'u nodi trwy adrodd ar berfformiad lefel system yn y chwe maes a ddisgrifir uchod.

Argymhelliad 6: Dylai'r adroddiadau sefydliadol a'r adroddiadau system gyfan fod yn gyhoeddus.

Mae'r argymhellion uchod, yn ogystal â darparu asesiad monitro perfformiad a gwerthuso blynyddol o'r materion sydd bwysicaf i Gymru, yn cynnig y fantais bwysig hefyd o gynorthwyo'r CADYG a'i roi yn y sefyllfa orau i gyflawni'r prif swyddogaethau sy'n ffurfio craidd ei fandad arfaethedig. Er enghraifft:

Yn gyntaf, cymhelliant mawr i greu'r CADYG yw'r awydd am fwy o gydweithio ac alinio - uno - ymhlith sectorau amrywiol y system AHO, o ystyried pob elfen o'r system AHO yn gyfartal. Mae hwn yn amcan canmoladwy a phwysig. Byddai'r prif gyflawniad yr wyf yn ei gynnig ar gyfer y CADYG, adroddiad blynyddol ar lefel system, yn gorfodi pobl i feddwl am sut mae gwahanol elfennau'r system AHO yn cael eu cydlynu, eu halinio ac yn cydweithredu, neu sut y gallent wneud hynny'n well. Felly, mae'r broses berfformiad arfaethedig yn cymell y CADYG i ymgysylltu yn yr union ffordd o feddwl integreiddiedig a chydgyssylltiedig sydd wrth wraidd ei fandad.

Yn ail, mae'n debyg y bydd Cymru'n dilyn yr un trywydd ag awdurdodaethau eraill, megis yr Alban, tuag at fframwaith polisi lle bydd sefydliadau'n trafod cytundebau canlyniadau gyda'r llywodraeth. Mae'n ymddangos yn rhesymegol i'r llywodraeth ddirprwyo eu rhan nhw i'r CADYG. Dylai'r cytundebau canlyniadau hyn (neu gcontractau perfformiad) ganolbwyntio ar feysydd sydd o bwys mawr i Gymru. Mae datblygu adroddiadau sefydliadol yn y chwe maes uchod yn gam naturiol ac angenrheidiol fel rhagflaenydd i drafod y contractau perfformiad hyn gan y byddant yn darparu'r sail dystiolaeth ar gyfer gwerthfawrogi, monitro ac asesu perfformiad sefydliadau unigol. Felly, gan fod y CADYG yn debygol o fod yn gyfrifol am drafod y cytundebau canlyniadau hyn, bydd yn anorfod y bydd rhaid iddo greu adroddiadau sefydliadol unigol fel yr wyf yn eu cynnig yma.

Yn drydydd, mae'n debyg y bydd y CADYG yn gyfrifol am gasglu a dadansoddi'r data yn y sector AHO a ffurfio perthynas waith effeithiol â sefydliadau AHO i sicrhau atebolrwydd, alinio a chyfathrebu clir rhwng y partïon. Mae'r broses monitro a gwerthuso perfformiad yr wyf yn ei hargymell ar gyfer y CADYG yn cyflawni'r union nodau hyn.

Yn olaf, er mwyn i'r CADYG fod yn effeithiol, mae'n rhaid iddo ffurfio perthynas effeithiol a defnyddiol â'r llywodraeth hefyd. Ni allai unrhyw beth wneud gwell gwaith o feithrin perthynas gynhyrchiol a defnyddiol rhwng y CADYG a'r llywodraeth na chreu adroddiad blynyddol system gyfan a'i ddadansoddi ar y cyd, fel yr wyf yn ei argymell uchod fel prif gyflawniad y CADYG.

VII. Dewis dangosyddion.

Mae Adran V yn disgrifio'r chwe maes blaenoriaeth y dylai'r broses a'r adnodd monitro ac asesu perfformiad ganolbwyntio arnynt. Fodd bynnag, mae angen cytuno ar y mesurau, neu'r dangosyddion penodol, a fyddai'n gweithredu fel mynegai perfformiad yn y meysydd hyn.

Dylid disgwyl i bob sefydliad yn y system AHO adrodd ar bob un o'r chwe maes. Y chwe maes hyn hefyd fyddai'r templed ar gyfer yr adroddiad blynyddol ar lefel system i'r llywodraeth. Fel y'u hadolygwyd yn y papur trafod cynharach, fodd bynnag, o gofio amrywiaeth y sefydliadau yn y system AHO, a'r amrywiaeth o ran mandad a ffocws y sefydliadau yn un o'r sectorau hyn hyd yn oed, mae system berfformiad ddefnyddiol a synhwyrol yn teilwra'r dangosyddion penodol o fewn pob un o'r meysydd hyn i genhadaeth a mandad gwahanol y sefydliadau unigol.

Yn ogystal, unwaith eto fel y trafodwyd yn y papur cynharach, mae'r dangosyddion gorau yn gwneud y canlynol:

- ☐ mesur allbynnau a chanlyniadau, nid mewnbynnau
- ☐ lle bo'n berthnasol, yn caniatáu ar gyfer cymharu perfformiad Cymru yn erbyn awdurdodaethau a chystadleuwyr cyffelyb eraill
- ☐ defnyddio mesurau uniongyrchol, nid mesurau procsi neu fenthg
- ☐ yn cael eu dilysu
- ☐ lle bo'n berthnasol, rhoi ystyriaeth i, os nad ceisio alinio gyda mesurau a ddefnyddir yn y sector addysg orfodol

Rwy'n argymhell, er mwyn creu cyfres o ddangosyddion ar gyfer sefydliad, dylid gofyn i'r sefydliad argymhell un, dau, ond dim mwy na thri dangosydd penodol yr ystyriant sydd fwyaf perthnasol ac ystyrion am eu perfformiad ym mhob un o'r meysydd hyn.

O gofio nodweddion y dangosyddion gorau a ddisgrifir uchod, dylai'r CADYG gynnull panel o arbenigwyr i asesu priodoldeb a hygrdedd y dangosyddion a gynigir gan sefydliad ac, ar ôl trafod gyda'r sefydliad os oes angen, eu cymeradwyo. Dylai'r panel gynnwys unigolion gwybodus sydd mewn sefydliadau AHO ar hyn o bryd, ac eraill y tu allan iddynt, gan gynnwys rhai o'r llywodraeth.

Argymhelliad 7: Dylai'r CADYG gynnull panel o arbenigwyr i adolygu a chymeradwyo'r dangosyddion penodol a gynigir gan sefydliadau ar gyfer eu hadroddiadau sefydliadol.

Mae'n ymddangos yn eithaf tebygol i mi y byddai nifer o sefydliadau yn y sector, neu bob un ohonynt efallai (ee colegau addysg bellach neu brifysgolion) yn cynnig set gyffredin o ddangosyddion y byddent i gyd yn eu defnyddio. Gorau oll po fwyaf o rannu dangosyddion fyddai yna, ond dylid cofio a pharchu'r angen bob amser i deilwra'r dangosyddion i genhadaeth a mandad unigryw'r sefydliad.

Mae'n ymddangos yn debygol hefyd y bydd rhai o'r dangosyddion a gynigir yn cael eu casglu a'u hadrodd eisoes ar gyfer dibenion sefydliadol, y llywodraeth, neu'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch. Felly, nid yw casglu data i boblogi'r adroddiadau sefydliadol hyn yn gofyn am unrhyw ymdrech ychwanegol ar ran sefydliadau o reidrwydd.

Mae llawer o'r data a gynigir fel dangosyddion da wedi'i archwilio neu ei ddilysu gan gyrff allanol eisoes. O ran data nad yw wedi'i archwilio neu ei ddilysu, cyfrifoldeb y CADYG fyddai sicrhau cywirdeb a dilysrwydd y data a ddarperir.

Argymhelliad 8: Dylai panel arbenigol y CADYG annog dangosyddion cyffredin, ond ni ddylai hynny fod yn ofynnol. Nid oes angen i'r gofyniad i adrodd am ddangosyddion penodol greu unrhyw fiwrocratiaeth na gwaith ychwanegol o ystyried y gwaith adrodd sy'n cael ei wneud eisoes yng Nghymru.

Argymhelliad 9: Os nad oes corff arall wedi archwilio neu ddilysu gwybodaeth eisoes, cyfrifoldeb y CADYG yw sicrhau cywirdeb y wybodaeth a ddarperir gan y sefydliad.

Fel y trafodwyd yn y papur cynharach, mae adroddiad system yn wahanol i adroddiadau sefydliadol unigol. Dylai'r panel o arbenigwyr gytuno ar set o ddangosyddion, eto dim mwy na thri ymhob un o'r meysydd a drafodir uchod, fel y mesurau mwyaf ystyrlon, credadwy a defnyddiol i fonitro a gwerthuso perfformiad y system AHO yn gyffredinol.

Argymhelliad 10: Dylai'r panel o arbenigwyr benderfynu ar set o ddangosyddion a ddefnyddir i greu adroddiad blynyddol y system gyfan.

VIII. Dadl gloi ar gyfer y broses newydd arfaethedig.

Rwy'n cynnig proses monitro perfformiad syml sy'n rhoi'r hyn sydd ei angen fwyaf i sefydliadau AHO Cymru a'r llywodraeth a'r hyn sydd fwyaf prin yn y broses monitro perfformiad bresennol. Yn benodol, adolygiad blynyddol cyfannol cynhwysfawr a gwerthusiad o gyfraniad sefydliadau AHO unigol a'r system AHO yn gyffredinol at nodau pwysicaf Cymru.

Rwy'n cynnig bod y CADYG newydd ei greu yn rheoli'r broses hon o fonitro a gwerthuso perfformiad. Ar wahân i'r cyfrifoldeb am sicrhau y paratoir adroddiadau sefydliadol unigol, prif gyflawniad y CADYG a'i gyflawniad pwysicaf fyddai asesiad blynyddol o gyfraniad y system AHO fel system gyfan i hyrwyddo a chyflawni blaenoriaethau a disgwyliadau uchaf Cymru o'r system AHO. Byddai CADYG â'r cyfrifoldebau hyn yn cefnogi ac yn cyflawni'r prif gymhelliant sy'n sail i greu CADYG - yn benodol, i hyrwyddo a sicrhau mwy o alinio, cydweithio a chydweithredu ymhlith y gwahanol sectorau o fewn y system AHO. Yn yr un modd, byddai CADYG gyda chyfrifoldeb am reoli'r broses monitro a gwerthuso perfformiad a awgrymir yn yr adroddiad hwn, trwy gyflawni'r rôl hon, yn cael ei lywio a'i gynorthwyo i gyflawni'r prif swyddogaethau penodol y mae'r CADYG yn cael ei greu i'w bodloni.

Mae proses monitro ac asesu perfformiad fel y'i cynigir yn yr adroddiad hwn yn ddigon hawdd i'w gweithredu heb fawr ddim oedi, gan greu ychydig iawn o waith gweinyddol neu fiwrocratiaeth ychwanegol ac yn lleihau unrhyw faich casglu data neu adrodd ychwanegol ar y sefydliadau.

Yn anad dim, mae'r broses arfaethedig yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen fwyaf i Lywodraeth Cymru a'i sefydliadau - sut mae'r gwahanol bolisiau, rhaglenni, arferion a gweithgareddau sydd yn y system AHO ac sy'n ei rheoleiddio yn cyflawni'r effaith a ddymunir, sef cyflawni'r nodau a'r amcanion sy'n hyrwyddo'r math o gymdeithas economaidd a chymdeithasol ffyniannus, flaengar, sifil a chadarn y mae Cymru'n dymuno ei chael. Ymhellach, os ystyrir bod cyfeiriad neu gyflymder y cynnydd tuag at y nodau hyn yn annigonol, mae'r broses adrodd a gynigir yn darparu gwybodaeth bwysig ar gyfer gwelliant i arwain newidiadau i bolisiau ac arferion cyfredol.

IX. Crynodeb o'r argymhellion.

Argymhelliad 1: Dylai Cymru ddatblygu system o fonitro a rheoli perfformiad sy'n rhoi asesiad cynhwysfawr a chyfannol o gyfraniad sefydliadau AHO unigol a'r system AHO yn ei chyfanrwydd at gyflawni nodau cenedlaethol Cymru.

Argymhelliad 2: Dylai'r broses a'r adnodd monitro perfformiad, asesu a rheoli ac asesu cyfraniad sefydliadau AHO unigol a'r system AHO gyffredinol mewn chwe maes:

- ☐ Ehangu mynediad
- ☐ Effaith economaidd
- ☐ Arloesi ac ymchwil
- ☐ Cynaliadwyedd sefydliadol
- ☐ Dysgu â gwerth ychwanegol
- ☐ Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Argymhelliad 3: Dylai'r CADYG reoli'r broses monitro a gwerthuso perfformiad a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

Argymhelliad 4: Dylai'r CADYG weithio gyda sefydliadau AHO i lunio adroddiad sefydliadol byr blynyddol sy'n disgrifio cyfraniad pob sefydliad AHO at gyflawni'r nodau blaenoriaeth uchel y mae'r llywodraeth wedi'u nodi trwy adrodd am y chwe maes blaenoriaeth uchel a ddisgrifir uchod.

Argymhelliad 5: Prif gyflawniad a chyflawniad pwysicaf y CADYG yw adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru sy'n disgrifio cyfraniad cyffredinol y system AHO at gyflawni'r nodau blaenoriaeth uchel y mae'r llywodraeth wedi'u nodi trwy adrodd ar berfformiad lefel system yn y chwe maes a ddisgrifir uchod.

Argymhelliad 6: Dylai'r adroddiadau sefydliadol a'r adroddiadau system gyfan fod yn gyhoeddus..

Argymhelliad 7: Dylai'r CADYG gynnull panel o arbenigwyr i adolygu a chymeradwyo'r dangosyddion penodol a gynigir gan sefydliadau ar gyfer eu hadroddiadau sefydliadol.

Argymhelliad 8: Dylai panel arbenigol y CADYG annog dangosyddion cyffredin, ond ni ddylai hynny fod yn ofynnol. Nid oes angen i'r gofyniad i adrodd am ddangosyddion

penodol greu unrhyw fiwrocratiaeth na gwaith ychwanegol o ystyried y gwaith adrodd sy'n cael ei wneud eisoes yng Nghymru.

Argymhelliad 9: Os nad oes corff arall wedi archwilio neu ddilysu gwybodaeth eisoes, cyfrifoldeb y CADYG yw sicrhau cywirdeb y wybodaeth a ddarperir gan y sefydliad.

Argymhelliad 10: Dylai'r panel o arbenigwyr benderfynu ar set o ddangosyddion a ddefnyddir i greu adroddiad blynyddol y system gyfan.

X. Atodiad 1.

Cylch gorchwyl ar gyfer Adolygiad o Systemau Monitro a Gwella Effeithiolrwydd Addysg Ôl-orfodol yng Nghymru

1. Ystyried sut mae gweithgareddau a pherfformiad y sector addysg ôl-orfodol yn cael eu monitro a'u gwerthuso gan Lywodraeth Cymru a'i hasiantaethau, gan gynnwys Estyn a CCAUC, sy'n cyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw trwy drefniadau gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA).
2. Ystyried effeithiolrwydd y trefniadau presennol ar gyfer monitro addysg ôl-orfodol yng Nghymru a'u barnu trwy gyfeirio at wledydd eraill y DU, cymaryddion rhyngwladol perthnasol a thystiolaeth ymchwil.
3. Gweithio gyda phobl yn y sector addysg ôl-orfodol yng Nghymru i ystyried sut y gellir alinio gweithgareddau cyfredol a chynlluniau'r dyfodol gyda phum egwyddor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r pum egwyddor fel a ganlyn:
 - ☐ ystyried yr hirdymor;
 - ☐ canolbwyntio ar atal;
 - ☐ darparu dull integredig o gyflawni'r 7 nod llesiant;
 - ☐ cydweithio ag eraill i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir;
 - ☐ cynnwys poblogaethau amrywiol yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
4. Ystyried argymhellion ar gyfer cyflwyno a gweithredu system flynyddol sy'n hygyrch i'r cyhoedd ar gyfer adrodd ar, monitro, gwerthuso a gwella addysg ôl-orfodol yng Nghymru.
5. Ystyried sut mae'r sector addysg ôl-orfodol yng Nghymru'n parhau i sicrhau canlyniadau o safon uchel i fyfyrwyr yn y sector sy'n llwyddiannus yn rhyngwladol o ran arloesi ac ymchwil.
6. Ystyried a oes angen deddfwriaeth a threfniadau sefydliadol newydd neu ddiwygiedig i fwrw ymlaen â'r trefniadau arfaethedig yn y dyfodol yng ngoleuni'r adolygiad hwn.
7. Rhoi sylwadau ar sut y gall y systemau presennol ar gyfer monitro a gwerthuso addysg ôl-orfodol gael eu halinio gyda nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r

Dyfodol (2015) a datblygu strategaeth addysg ôl-orfodol sy'n gydnaws ag ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Hazelkorn. Mae'r saith nod llesiant fel a ganlyn:

- ☐ Cymru lewyrchus;
- ☐ Cymru gydnherth;
- ☐ Cymru iachach;
- ☐ Cymru sy'n fwy cyfartal;
- ☐ Cymru o gymunedau cydlynus;
- ☐ Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu;
- ☐ Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

XI. Atodiad 2.

Adolygiad o Systemau ar gyfer Monitro a Gwella Effeithiolrwydd Addysg Ôl-orfodol yng Nghymru

Dogfen Drafod Ragarweiniol ar gyfer Ymgynghori

Harvey P. Weingarten

Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i mi gynnal adolygiad o'r ffordd y mae Cymru yn monitro ac yn asesu perfformiad ei system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO). Mae'r adolygiad hwn i gynnwys ystyried y mecanweithiau a ddefnyddir yn y sector prifysgolion, y colegau addysg bellach, darparwyr prentisiaethau a chanolfannau dysgu oedolion. Mae'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr adolygiad hwn yn Atodiad 1.

Dechreuais yr ymarfer hwn gydag ymchwil desg - adolygu amrywiaeth eang o ddogfennau sy'n disgrifio sut mae Cymru yn rheoli ac yn adolygu ei system AHO ar hyn o bryd, yn benodol, nifer o adroddiadau a chymau diweddar gan lywodraeth Cymru mewn perthynas â sawl elfen o'i system AHO. Mae'r rhain yn cynnwys Adroddiad Hazelkorn, Adroddiad Diamond, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a dogfennau ymgynghori ac adborth sy'n ymwneud â'r rhain, gan amrywiaeth o sefydliadau sy'n rhan o'r system AHO ar hyn o bryd, gan gynnwys Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru. Yn ogystal, edrychais ar wefannau sefydliadau perthnasol, megis yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (Cymru), Estyn, Prifysgolion Cymru, Colegau Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Mae'r adroddiadau a'r safleoedd hyn yn darparu addysg i mi ar AHO yng Nghymru ac yn ffurfio cyd-destun a chefnidir yr adolygiad penodol y cefais fy nghomisiynu i'w gynnal.

Cafodd fy ystyriaeth o'r dogfennau hyn ei ategu gan daith i Gymru ym mis Hydref 2017 lle y gwnes gyfarfod â llu o unigolion oedd yn wybodus am y sector AHO yng Nghymru ac yn ymwneud â'r sector hwnnw. Roddodd y trafodaethau hyn safbwyntiau a sylwadau i mi am y system yng Nghymru ar lefelau dyfnach a mwy trylwyr nag y gellid eu casglu gan ymchwil desg. Dysgais lawer o'r trafodaethau hyn. Diolchaf i bawb a gyfarfu â mi am eu hamser ac am eu cyfraniad at fy addysg.

Mae'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr adolygiad hwn yn gofyn cyfres o gwestiynau penodol ynghylch sut mae perfformiad y system AHO yn cael ei asesu ar hyn o bryd, effeithiolrwydd y gwerthusiadau hyn, sut y gellir cynllunio trefn fonitro a gwerthuso perfformiad a'i halinio â nodau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, a sut y gall system monitro perfformiad arwain at AHO o well ansawdd yng Nghymru. Bydd angen i mi fynd i'r afael â'r cwestiynau hyn yn uniongyrchol yn fy adroddiad terfynol. Fodd bynnag, cyn gwneud sylwadau penodol ar y materion hyn, roeddwn o'r farn ei bod yn bwysig i mi allu trin a thrafod, a chael atebion gan bobl yng Nghymru, ar rai o'r materion cyffredinol sy'n gysylltiedig â'r cwestiynau hyn ac sy'n berthnasol i gynllun adnodd monitro a gwerthuso perfformiad a fyddai'n gweithio'n dda i Gymru. Dyma'r eitemau yr wyf yn eu codi yn y ddogfen drafod hon ac yr wyf yn gofyn am eich sylwadau, adborth a chyngor amdanynt.

Nid yw'n ymddangos i mi fod y materion a'r ddynnameg yr wyf wedi dod ar eu traws yn amgylchedd Cymru yn wahanol iawn i'r rhai y byddem yn eu gweld mewn awdurdodaethau

eraill sy'n ystyried sut i fonitro a gwerthuso perfformiad eu systemau ôl-uwchradd hefyd. Serch hynny, mae'r cyd-destun a'r amgylchedd ar gyfer unrhyw adnodd monitro ac asesu perfformiad yn wahanol mewn gwahanol awdurdodaethau, ac mae'r un peth yn wir o ran Cymru. Rwy'n ymwybodol iawn hefyd o'r peryglon o wneud rhagdybiaethau ynghylch awdurdodaeth pan fo rhywun yn byw mewn un arall.¹ Felly, prif ddiben y ddogfen hon yw gofyn am eich adborth a'ch sylwadau ar rai arsylwadau rhagarweiniol, argraffiadau a materion sy'n codi o'r hyn yr wyf wedi'i ddysgu hyd yn hyn.

Pam trefnu'r fenter hon nawr?

Mae Cymru wedi gwneud datganiad trawiadol am ei dyheadau ar gyfer y dyfodol. Mae'r nodau y mae'n ceisio eu cyflawni ar gyfer ei dinasyddion a'r wlad i'w gweld yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n mynegi cyfres o nodweddion y mae'n gobeithio y bydd yn nodweddu Cymru yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod, ac wedi bod yn eithaf eglur am y ffaith bod perfformiad ac allbynnau ei system AHO² – trwy'r myfyrwyr hyddysg sy'n ennill graddau drwyddi, yr ymchwil a'r arloesedd sy'n deillio ohoni a'r cymunedau a'r rhanbarthau y mae'n eu cefnogi – yn hanfodol er mwyn sicrhau'r economi gadarn a bywiog a'r gymdeithas sifil y mae'r Ddeddf yn eu disgrifio.

Hyd yn oed y tu hwnt i'r cymhellion priodol ac uchelgeisiol hyn ar gyfer monitro ac asesu cyfraniadau ei sector AHO, mae'n gwbl naturiol y byddai llywodraeth a'r cyhoedd eisiau gwybod sut mae sector a gefnogir yn gyhoeddus – megis system ôl-orfodol Cymru – yn perfformio. Mae stiwardio arian cyhoeddus yn effeithiol yn rôl a ddisgwyllir gan lywodraeth. Yn ychwanegol at hyn, mae llywodraethau'n wynebu craffu ac atebolrwydd cynyddol am y defnydd effeithiol o arian cyhoeddus. Nid oes modd i lywodraeth gyflawni'r gofynion stiwardiaeth ac atebolrwydd hyn (ac nid oes dianc oddi wrthynt) heb rywfaint o werthusiad o'r modd y mae'r arian cyhoeddus y maent yn ei ddarparu i sefydliadau cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio a'r canlyniadau a gyflawnir.

Beth yw diben monitro a gwerthuso perfformiad?

Yn nodweddiadol, mae yna nifer o gymhellion, nad ydynt yn annibynnol ar ei gilydd o reidrwydd, i lywodraeth ddefnyddio adnodd monitro a gwerthuso perfformiad.

Y cyntaf, fel y nodwyd uchod, yw dal sefydliadau i gyfrif am yr arian cyhoeddus a gânt a'r rôl gyhoeddus y maent yn ei mwynhau mewn cymdeithas. Er nad yw'n ddymuniad nac yn fwriad gan lywodraethau fel rheol, gall y cymhelliant hwn arwain at adroddiadau beio a chodi cywilydd weithiau (modd i fyw i rai cyfryngau) a sgorio sefydliadau.

Yr ail yw llywio penderfyniadau eraill y mae'n rhaid i'r llywodraeth eu gwneud, yn enwedig mewn meysydd megis dyrannu adnoddau, ariannu, grantiau cyfalaf ac ati. Rydym i gyd yn dweud ein bod am i'r llywodraeth a grwpiau polisi eraill wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac mae'n amhosib deall sut y gallant wneud penderfyniadau o'r fath heb dystiolaeth. Mae

¹ Yr wyf yr un mor ymwybodol o fanteision gofyn am adroddiad fel hyn gan rywun nad yw yng nghanol y cyd-destun a'r amgylchedd domestig.

² Er eglurder, yn y ddogfen hon, rwy'n defnyddio'r term "system" i gyfeirio at y system AHO gyfan (yn hytrach na'r system orfodol) sy'n cynnwys pob un o'r gwahanol fathau o sefydliadau sydd ynddi (ee colegau addysg bellach, prifysgolion, darparwyr prentisiaethau ac ati) a'r term "sector" i gyfeirio at wahanol gydrannau'r system AHO (ee darparwyr prentisiaeth yn unig neu brifysgolion yn unig).

adnodd monitro ac asesu perfformiad wedi'i gynllunio'n dda yn rhoi gwybodaeth berthnasol ac ystyrlon i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau sy'n sail i'r penderfyniadau hynny.

Y trydydd cymhelliant ar gyfer cynllunio a defnyddio adnodd monitro ac asesu perfformiad ³ yw er mwyn cymryd rhan mewn proses barhaus o welliant parhaus. Yn syml, y nod yw derbyn cyfraniad mwyaf pob elfen o'r system a bydd mesur cyfraniad pob un o'r elfennau hyn yn caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud ac addasiadau yn ystod y cyfnod dan sylw sy'n galluogi pob sefydliad unigol a'r system i berfformio cystal ag y gallant.

Y teimlad clir yr wyf yn ei gael yw bod yr ystyriaeth olaf hon yn ysgogi dymuniad y llywodraeth i gael adnodd asesu perfformiad. Heb ystyried dim byd arall, mae teitl y contract a roddwyd i mi yn nodi'n glir mai dyna yw diben yr ymarfer hwn. Efallai y defnyddir yr adnodd perfformiad i lywio penderfyniadau polisi a chyllido eraill yn y pen draw, ond y rhesymeg sylfaenol yw cynllunio rhywbeth sy'n ddefnyddiol i lywodraethau a sefydliadau i wella eu perfformiad a'u hallbwn a defnydd effeithiol o'u hadnoddau.

Os ydw i'n gywir yn nodi'r diben hwn fel y prif gymhelliant ar gyfer yr ymarfer, yna waeth i ni gydnabod o'r cychwyn hefyd, pa bynnag eirfa a ddefnyddir – gwelliant, gwell canlyniadau, mwy o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ac ati – un o ddibenion yr ymarfer asesu perfformiad yw sbarduno newid yn y system AHO. Mae'n ymddangos bod dwy ffordd y gall adnodd perfformiad sbarduno newid. Y gyntaf yw trwy gysylltu perfformiad â chyllid. Mae hwn yn ysgogwr effeithiol; mae'r dystiolaeth yn awgrymu y bydd sefydliadau'n ymateb i'r cymhellion ariannu a chyllidol. Yr hyn sy'n gofyn am ystyriaeth ofalus yma yw bod y strategaeth hon mor effeithiol bod yn rhaid bod yn ofalus iawn wrth ddewis y dangosyddion cywir oherwydd bydd sefydliadau'n addasu i wneud y gorau o'u perfformiad ar y mesurau a weithredir sy'n dylanwadu ar gyllid.

Efallai y bydd rhai'n dadlau bod newidiadau diweddar i'r ffordd y mae Cymru'n ariannu rhai o'i sefydliadau AHO, trwy gysylltu mwy o'i harian cyhoeddus â myfyrwyr a lleihau'r cymorth i sefydliadau trwy grantiau uniongyrchol, yn lleihau'r cyfle i'r llywodraeth fanteisio ar yr ysgogwr ariannu hwn. Byddwn yn dadlau, er y gall y polisiâu hyn newid y llwybr y mae arian cyhoeddus yn ei ddilyn i gyrraedd sefydliadau, mae gan y llywodraeth lawer iawn o reolaeth o hyd drwy'r cyllid anuniongyrchol hwn oherwydd, heb sôn am ddim byd arall, mae'r llywodraeth yn cadw'r hawl i reoleiddio hyfforddiant a ffioedd (a pholisiâu eraill sy'n gysylltiedig â chymorth ariannol myfyrwyr) ac yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sy'n dymuno i'w myfyrwyr fod yn gymwys i gael arian cyhoeddus gydymffurfio â'r drefn reoleiddio hon.⁴ Rwy'n nodi hefyd fod trafodaeth ynghylch y posibilrwydd o ryddhau arian, Difidend Diamond fel y'i gelwir, a all godi o ganlyniad i newidiadau i'r system cymorth ariannol. Yr wyf yn siŵr y bydd cryn alw am ddefnyddio'r cronfeydd hyn, yn arbennig i gefnogi agenda ymchwil ac arloesi. Pe bai difidend o'r fath yn dod i'r fei, rwy'n argymhell bod y llywodraeth yn cadw'r cyfan neu ran ohono fel cist ryfel gyda'r nod penodol o sbarduno newidiadau a ddymunir yn y sector AHO a chynllunio ei hadnodd perfformiad i fesur a yw dyraniad y cronfeydd hyn yn hyrwyddo'r newidiadau a'r canlyniadau a ddymunir.

Yr ail ysgogwr effeithiol ar gyfer newid mewn addysg uwch yw datgelu perfformiad yn gyhoeddus. Efallai y bydd y strategaeth hon yr un mor effeithiol ag ariannu wrth sbarduno

³ Deallaf mai'r iaith gyfredol yw galw adnoddauau o'r fath yn 'adnoddau tryloywder'.

⁴ Rwy'n gwerthfawrogi bod y newid polisi hwn i gael mwy o arian cyhoeddus yn dilyn myfyrwyr yn lle grantiau uniongyrchol i sefydliadau'n creu dynameg arall sy'n dylanwadu ar ymddygiad sefydliadau.

newid. Mae'r llywodraeth wedi crybwyll ei bwriad eisoes i sicrhau bod data, megis yr hyn a geir trwy unrhyw ymarfer mesur perfformiad AHO, yn gyhoeddus.

Y pwynt yn y cyswllt hwn yw bod mesur perfformiad yn ymarfer gwag oni bai ei fod yn gysylltiedig ag arferion a pholisïau hefyd, megis ariannu neu ddatgeliad cyhoeddus, sy'n sbarduno newid. Mae'n ymddangos yn synhwyrol ystyried pa strategaethau y mae'r llywodraeth yn barod i'w defnyddio i sbarduno newid yn y camau trafod cynnar hyn yn y broses o ddatblygu'r adnodd asesu perfformiad.

Pwy sydd i'w asesu?

Mae'r sector AHO yng Nghymru yn cynnwys prifysgolion, colegau addysg bellach, darparwyr prentisiaeth, canolfannau dysgu oedolion ac elfennau eraill. Mae'r sefydliadau hyn yn darparu amrywiaeth o gymwysterau. Mewn rhai achosion, gall cymhwyster fod yn rhywbeth a gynigir gan un math o sefydliad yn unig (ee dim ond prifysgolion sy'n cynnig graddau bagloriaeth) ac mewn achosion eraill gall nifer o wahanol fathau o sefydliadau gynnig yr un cymhwyster (ee Chweched Dosbarth).

Mae'n anodd dychmygu adnodd asesu perfformiad cyffredin a fyddai'n cael ei ddefnyddio ym mhob un o'r sectorau hyn. Er enghraifft, mae'n debygol y byddai'r elfennau a'r dangosyddion a allai gael eu hymgorffori mewn adnodd perfformiad ar gyfer darparwyr prentisiaethau yn wahanol iawn i'r hyn a fyddai'n cael ei ddefnyddio i werthuso prifysgolion. Mae gan rai o'r sefydliadau hyn brif fandad clir iawn, ee sicrhau bod nifer a math penodol o brentisiaid yn graddio neu sicrhau bod canran benodol o fyfyrwyr wedi ymrestru yn y chweched dosbarth yn graddio⁵. Gallai rolau eraill, megis addysg i raddedigion, fod yn unigryw i brifysgolion ac felly byddai unrhyw ddangosyddion sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth hon yn gymwys ac yn berthnasol i sefydliadau yn y sector hwn yn unig. Hyd yn oed o fewn rhywbeth fel y sector prifysgol, mae amrywiaeth y canlyniadau y disgwylir ganddynt - rhaglenni israddedig, addysg raddedig ac ymchwil - yn awgrymu casgliad ehangach o ddangosyddion perfformiad. Ac, o ystyried amrywiaeth sefydliadau yn y sector hwn, ni fyddai pob un o'r dangosyddion y byddech yn dymuno eu defnyddio yn y sector unigol hwn hyd yn oed yr un mor berthnasol neu â phwysoliad cyfartal i bob prifysgol o reidrwydd.

Y pwynt hanfodol yw bod angen eglurder ynghylch mandadau a disgwyliadau'r gwahanol sefydliadau yn y sector AHO er mwyn creu adnodd perfformiad oherwydd bod yn rhaid i'r pethau penodol a fesurir mewn unrhyw sefydliad neu o fewn un sector fod yn gyson â mandad a disgwyliadau'r sector a'r sefydliad hwnnw. Lle bynnag y mae yna ddiffyg eglurdeb o'r fath, rhaid datrys hynny'n gyntaf cyn y gellir cynllunio adnodd perfformiad synhwyrol a defnyddiol.

Mae gen i sawl cwestiwn o hyd yn ymwneud â phwy sydd i'w asesu:

1. A yw datblygu a gweithredu adnodd monitro ac asesu perfformiad yn cael ei weld yn flaenoriaeth gyfartal ym mhob un o'r sectorau sy'n rhan o'r system AHO? Mae'r ateb i'r cwestiwn hwn yn llywio'r gwaith o fynd ati i greu'r adnodd yn y dyfodol.
2. A yw disgwyliadau rhai o'r sectorau yn y system AHO mor eglur ac amlwg fel y bydd yn hawdd addasu set o ddangosyddion perfformiad ar gyfer yr elfen honno o'r system AHO?

⁵ Ac, yn oblygedig, bydd yn hawdd datblygu cyfres o ddangosyddion i werthuso perfformiad.

Pwy fydd yn rheoli'r broses asesu perfformiad?

Mae Adroddiad Hazelkorn wedi arwain Llywodraeth Cymru i ystyried creu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru (CADYG).

Mae strwythur a rôl y CADYG, er yn dechnegol efallai y tu hwnt i gylch gorchwyl y dasg a roddwyd i mi, yn berthnasol oherwydd mai'r corff fel y caiff ei weld ar hyn o bryd fyddai'n gyfrifol am reoli'r broses perfformiad AHO.

Mae'r CADYG, fel y'i disgrifir ar hyn o bryd, yn sefydliad hyd braich ar y llywodraeth, sy'n gyfrifol am gasgliad eang o swyddogaethau yn y system AHO drwyddi draw, yn amrywio o gynllunio strategol hirdymor, i ddyrannu adnoddau, i fonitro a gwerthuso perfformiad. Mae unrhyw un o'r rolau hyn yn dasg sylweddol. Er fy mod yn gwerthfawrogi'r cymhelliant i ddod â'r sector AHO cyfan o dan un to, mae'n anodd dychmygu sut y gallai un sefydliad eu cyflawni i gyd yn dda heb greu anghenfil o sefydliad gyda nifer o adrannau gwahanol sy'n cyfateb i'w gwahanol gyfrifoldebau, yn enwedig o ystyried ystod ac amrywiaeth y sefydliadau yn y sector AHO. Rwy'n gwerthfawrogi'r gobaith y gallai dod â'r holl system AHO o dan un sefydliad rheoli gynyddu cydweithio ymhlith gwahanol elfennau'r system AHO. Ond mae hon yn rhagdybiaeth heb ei phrofi (er y gallai fod yn fantais bositif bosib i'r CADYG); mae'n bosib y gallai rhannu'r un papur pennawd ddod â mwy o gydweithredu a chysondeb i'r system AHO, ond efallai na fyddai'n gwneud hynny. Ond, fel y caiff ei disgrifio ar hyn o bryd, mae'r CADYG yn cyflwyno baich gweinyddol a biwrocraidd nad yw'n ddibwys a'r perygl yw y gallai cymhlethdodau angenrheidiol sefydliad o'r fath arwain at fethu gwasanaethu unrhyw un o elfennau'r system AHO yn arbennig o dda.

Y cwestiwn mwy arwyddocaol am y CADYG yw ei berthynas â'r llywodraeth. Fel y mae'n cael ei weld ar hyn o bryd, byddai Llywodraeth Cymru'n dirprwyo awdurdod sylweddol i'r corff clustogi hwn, yn cynnwys un o'r mwyaf sef dyrannu adnoddau ac asesu perfformiad y system. Y cwestiwn sylfaenol ar gyfer Llywodraeth Cymru yw a yw'n barod mewn gwirionedd i roi'r gorau i reoli a llywio'r system i'r trydydd parti hwn a pha fanteision y mae'n eu gweld o wneud hynny?

Mae dirprwyo'r gwaith o reoli addysg uwch gan y llywodraeth i drydydd parti hyd braich yn gweithio mewn rhai gwledydd ond mae angen disgyblaeth sylweddol ar y llywodraeth. Os yw'r llywodraeth yn parhau i ymyrryd mewn penderfyniadau fel dyrannu adnoddau, neu'n barod i dderbyn deisebau uniongyrchol gan arweinwyr sefydliad AHO, yna caiff y rhesymeg dros gorff clustogi ei thanseilio'n llwyr.

Y realiti arall yw mai'r llywodraeth, nid corff clustogi trydydd parti fel CADYG, sy'n ysgwyddo materion a phroblemau ei system addysg gyhoeddus yn y pen draw. Os yw sefydliadau'n mynd yn fethdalwyr, yn methu â chyflawni eu cenhadaeth academiaidd, yn perfformio'n wael, neu'n wynebu rhyw fath o sgandal, bydd y cyhoedd a'r sefydliadau'n troi at y llywodraeth i dderbyn y bai ac i ddatrys y broblem. Llywodraethau, nid y trydydd parti, sy'n atebol yn y pen draw ac os yw'r system AHO yn methu â chyrraedd y nodau a'r canlyniadau y disgwyli'r ganddi, y llywodraeth a gaiff ei dal i gyfrif. Dyna pam nad yw llawer o lywodraethau'n barod i ildio rhai penderfyniadau allweddol penodol i drydydd parti, er y gall y corff trydydd parti gynnwys pobl sy'n fwy arbenigol a gwybodus am addysg uwch na'r llywodraeth mewn rhai achosion.

Os yw'r llywodraeth wedi ymrwmo i gysyniad CADYG fel y'i disgrifir ar hyn o bryd, yna dylai fod yn barod i weithredu ar lefel system, pennu polisi cyffredinol ac eang sy'n llywio'r system i gyflawni'r nodau hyn, ac osgoi unrhyw ymgysylltu neu benderfyniadau ar y lefel sefydliad neu

broses. Byddai llywodraeth o'r fath yn canolbwyntio ar ystyried a yw'r system AHO yn ei chyfanrwydd yn cyflawni nodau a chanlyniadau a ddymunir ac yn osgoi cyfarwyddo neu ddweud wrth sefydliadau sut y gallent gyflawni'r nodau hyn. Mae'r prosesau, y camau gweithredu a'r defnydd o adnoddau i gyflawni nodau yn dod yn rhan o gylch gorchwyl y CADYG, nid y llywodraeth. Mae hon yn athroniaeth ac yn ddull o weithredu sy'n galed i lawer o lywodraethau i'w mabwysiadu ac, yn wir, fy nheimplad i yw nad yw Llywodraeth Cymru, fel llawer o lywodraethau eraill (fel fy un i) yn barod ar gyfer hynny. O ran monitro ac asesu perfformiad, mae'n gwneud synnwyr i mi y byddai corff heblaw'r llywodraeth ei hun yn rheoli'r broses hon ac yn adrodd canlyniadau – does dim rhaid i'r llywodraeth redeg y broses hon. Ond nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i'r un corff hwn fod yr un sy'n dyrannu adnoddau ac yn gwneud penderfyniadau am adnoddau. Y pwynt cyffredinol yw y dylai Llywodraeth Cymru ystyried manteision ac anfanteision corff trydydd parti fel y CADYG. Yn benodol, mae'n rhaid i'r llywodraeth benderfynu pa rolau, swyddogaethau a chyfrifoldebau y mae'n barod i'w dirprwyo i unrhyw drydydd parti fel y CADYG ac yna bod yn ddisgybledig i weithredu ar y lefelau cywir o ystyried y rolau a'r cyfrifoldebau y mae wedi eu cadw iddi hi ei hun.

Pa fathau o ddangosyddion?

Ffocws ar y system neu sefydliadau:

Mae dwy fath o system monitro a gwerthuso perfformiad: y rhai sy'n canolbwyntio ar y perfformiad ar lefel system a'r rhai sy'n canolbwyntio ar berfformiad sefydliadau unigol o fewn system. Mae'r dangosyddion penodol sy'n cael eu cynnwys mewn adnodd mesur perfformiad, a phensaerniaeth yr adnodd ei hun, yn wahanol ar gyfer y ddau safbwynt.

Enghraifft dda o adrodd ar berfformiad ar lefel system yw Education-At-A Glance y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD). Mae'r cyhoeddiad hwn yn adrodd ar berfformiad y wlad gyfan; nid oes sôn nac awgrym o berfformiad sefydliadau unigol. Wrth gwrs, mae'r data a adroddir gan y sefydliad yn cynrychioli cydgrynhoi gwybodaeth gan sefydliadau o fewn system y wlad ond y ffocws yw sut mae'r awdurdodaeth yn ei chyfanrwydd yn perfformio a sut mae'n cymharu â pherfformiad awdurdodaethau cyffelyb eraill. Mae asesiad perfformiad y taleithiau yng Nghanaada a gynhelir gan yr Higher Education Quality Council of Ontario (HEQCO) yn enghraifft dda arall o asesiad perfformiad sy'n canolbwyntio ar berfformiad cyffredinol y system, nid sefydliadau unigol (http://www.heqco.ca/SiteCollectionDocuments/HEQCO_Canadian_Postsecondary_Performance_Impact2015.pdf).

Mae yna lawer o enghreifftiau o adnoddau perfformiad sy'n canolbwyntio ar y lefel sefydliadol. Byddai'r rhain yn cynnwys y rhai sydd ar gael yn y cyfryngau (Times Higher Education yn fyd-eang, US News & World Report ar gyfer UDA, Maclean's yng Nghanaada ac ati) a'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil a'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu yn y DU.

Er bod y grwpiau cymhariaeth penodol a'r cymhelliant ar gyfer cynnal yr asesiadau perfformiad yn wahanol yn y ddau gynllun, gall y ddau ddull fod yn gysylltiedig. Gellir defnyddio llawer o'r dangosyddion a gymhwysir ar lefel sefydliad unigol, megis ymrestru, cyfraddau graddio a pherfformiad ymchwil, ymhlith pethau eraill, i gymharu systemau o fewn neu ar draws gwledydd hefyd. Gellir mesur perfformiad system trwy wneud dim mwy nag asesu perfformiad y sefydliadau unigol yn y system.

Ond nid yw'r ddau ddull hyn yr un fath. Er enghraifft, os yw sefydliadau unigol yn cyflawni eu nodau unigol, nid yw hynny'n golygu bod y system gyfan yn cyflawni nodau cyhoeddus, neu o

leiaf nid ar ei gorau. Er enghraifft, gallai sefydliadau ymgymryd ag arferion recriwtio rheibus, cystadleuaeth, neu agor campysau lloeren sy'n gwella eu perfformiad unigol ond sy'n peryglu perfformiad y system gyffredinol. Mae asesuadau o sefydliadau unigol yn rhoi gwybodaeth well i ddarllenwyr sy'n berthnasol i'w dewis o sefydliadau i astudio ynddynt ac i lywodraethau (neu'r CADYG) ynglŷn â sut mae sefydliadau unigol yn perfformio. Mae asesuadau system yn rhoi gwybodaeth i lywodraethau sy'n dangos a yw'r polisïau a fabwysiadwyd ganddynt yn gweithio er mwyn symud eu system addysg uwch tuag at nodau a ddymunir a sut mae eu systemau'n cystadlu'n rhyngwladol.

Mae fy nealltwriaeth o ddarllen yr amrywiol adroddiadau ac o drafodaethau â phobl o Gymru yn awgrymu i mi mai ymarfer perfformiad sy'n canolbwyntio ar y sefydliad sy'n cael ei ffafrio. Mae hyn yn gwbl synhwyrol⁶. Ond, o ystyried y ffocws hwn, mae yna sawl ystyriaeth bwysig a fydd yn dylanwadu ar gynllun yr adnodd a'r pethau penodol a fesurir.

1. Rhaid i'r dangosyddion penodol a ddefnyddir i asesu perfformiad sefydliad gael eu halinio a'u haddasu i weddu i genhadaeth, mandad a disgwyliadau gwahanol pob un o'r sefydliadau hyn. Mae hyn yn golygu nad oes angen i'r casgliad o ddangosyddion perfformiad ar gyfer gwahanol sectorau o fewn system AHO fod yr un fath. Yn yr un modd, hyd yn oed o fewn sector, nid oes angen i'r cyfresi penodol o ddangosyddion a ddefnyddir, neu bwysoliad pob un o'r dangosyddion hyn, fod yr un fath ar gyfer pob sefydliad. Mae hyn yn golygu, fel y nodwyd o'r blaen, bod yn rhaid cael eglurder, cydlynid a chytundeb ar lefel llywodraeth a sefydliadau ynghylch cenhadaeth, mandad a'r hyn a ddisgwylir gan sefydliadau unigol⁷. Er mwyn i system asesu perfformiad weithio a bod yn ddefnyddiol, mae'n rhaid cael eglurder o'r fath. Yn fy mhrofiad i, nid yw'r eglurder hwn i'w gael bob amser a phan nad yw ar gael mae angen sgwrs bwrpasol a deallus rhwng y llywodraeth a'r sefydliad er mwyn darparu eglurder o'r fath.
2. Yn gyson â'r ddadl uchod, rhaid i'r offeryn asesu perfformiad barchu amrywiaeth sefydliadau. Mae sefydliadau yn y system AHO yn amrywio nid yn unig o ran mandad a cenhadaeth, ond hefyd o ran natur y myfyrwyr y byddant yn eu hymrestru, y rhanbarthau maent ynddynt ac ati. Er enghraifft, gadewch i ni dybio mai un o'r nodau a bennwyd ar gyfer y system AHO yw cynyddu cyfradd raddio myfyrwyr â chymhwyster AHO. Gellid pennu cyfradd raddio darged a fyddai'n ddisgwyliedig gan bob sefydliad yn y system AHO. Ond, byddai targed mor gyffredin yn anwybyddu'r ffaith bod gwahanol sefydliadau'n ymrestru myfyrwyr â gwahanol alluoedd, cefndiroedd ac ati, ac ar raglenni sy'n wahanol o un sefydliad i'r llall (er enghraifft, a fyddai rhywun yn disgwyl yr un gyfradd raddio i fyfyrwyr mewn rhaglenni prentisiaeth a pheirianeg?). Y pwynt yma yw bod rhaid i ddangosyddion gael eu teilwra i sefydliadau penodol a rhaid iddynt fod yn ymwybodol o'r gwahanol bwyntiau cychwyn a phroblemau ym mhob sefydliad a darparu ar eu cyfer. Mae hyn yn awgrymu mai'r mesurau neu dargedau perfformiad gwell yw'r rhai sy'n cydnabod amodau cychwyn a gwahaniaethau o ran dynameg. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth fesur ansawdd academiaidd neu berfformiad sefydliadau (mwy ar hyn yn nes ymlaen).

⁶ At rai dibenion, bydd angen i Gymru adrodd ar lefel y system. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i rywun fod yn gyfrifol am gydgrynhoi data'r sefydliadau i gynhyrchu data lefel system. Rôl y llywodraeth fydd hon neu, os yw'n dymuno, y CADYG os yw'r llywodraeth yn dirprwyo'r rôl hon iddo.

⁷ Cyfeirir at hyn fel y polisi "gwahaniaethu" ym maes addysg uwch yn aml.

3. Mae Cymru wedi myfyrio'n helaeth ynghylch dangosyddion priodol i'w defnyddio yn y sector gorfodol. Mae'r systemau gorfodol ac AHO yn wahanol, ond mae cysylltiad rhyngddynt. Dylid ystyried i ba raddau y gellir neu y dylid alinio dangosyddion perfformiad yn y sector gorfodol ac ôl-orfodol.
4. Nid yw Cymru'n bodoli mewn gwactod. Er y dylai mesurau perfformiad fod yn berthnasol ac yn ystyrlon i nodau ac amcanion cenedlaethol penodol ar gyfer Cymru, rhaid i'r offeryn perfformiad ystyried y realiti hefyd sef bod gofyn i Gymru fod mewn sefyllfa i gymharu ei hun ag awdurdodaethau perthnasol eraill. Mae hyn yn arbennig o bwysig i sefydliadau, fel rhai o brifysgolion Cymru sy'n ceisio cystadlu'n fyd-eang. Ac, wrth reswm, mae'n rhaid i'r dangosyddion a ddewisir ganiatáu i Gymru a'i sefydliadau ystyried ac alinio â disgwyliadau ac ymarferion mesur perfformiad yn y DU. Mae hyn yn ymwneud â rôl dangosyddion sy'n caniatáu cymariaethau rhyngwladol o'r fath fel y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA), y Rhaglen Ryngwladol Asesu Cymwyseddau Oedolion (PIAAC) neu ymarferion o'r fath fel y defnydd rhyngwladol cynyddol o'r adnodd Collegiate Learning Assessment (CLA) ar gyfer meddwl beirniadol⁸. Wrth i Gymru geisio gwella ei system addysg, gall fod yn bwysig gwirio perfformiad trwy ddefnyddio'r mathau hyn o asesiadau sy'n caniatáu cymariaethau perfformiad rhyngwladol. Nid yw'r dasg o gydbwyso wrth ddethol dangosyddion sy'n dangos nodau cenedlaethol o gymharu â nodau rhyngwladol yn hawdd ond mae'n ymwneud yn uniongyrchol â phwrrpas yr adnodd; yn benodol, a yw i gynnwys tuedd i ddangos cynnydd tuag at nodau cenedlaethol a chanlyniadau dymunol Cymru neu a ddylid ei addasu i ddangos perfformiad Cymru o gymharu ag awdurdodaethau eraill?

Mewnbynnau, allbynnau a chanlyniadau:

Mewnbynnau yw'r adnoddau sy'n mynd i mewn i'r system AHO a sefydliadau, fel doleri, y nifer a'r math o hyfforddwyr a myfyrwyr. Allbynnau yw pethau a gynhyrchir gan y system AHO a'i sefydliadau fel cymwysterau, graddedigion, cyhoeddiadau ymchwil. Y canlyniadau yw'r manteision sy'n deillio o'r system AHO a'i sefydliadau fel cymdeithas fwy sifil, effaith economaidd, dinasyddion hapus ac iach.

Yn ddelfrydol, dim ond deilliannau y mae adnodd monitro ac asesu perfformiad yn eu mesur; dylai fod yn amherthnasol pa brosesau neu strategaethau y mae sefydliad penodol yn eu mabwysiadu cyn belled â'i fod yn cynhyrchu deilliannau dymunol a da. Yn ymarferol, fodd bynnag, mae'n anodd yn aml dod o hyd i ddangosyddion canlyniadau da, yn enwedig y rhai y gellir eu cysylltu mewn gwirionedd mewn rhyw ffordd achosol â chyfraniad y system AHO.⁹ Y dangosyddion nesaf orau yw allbwn. Yn fy marn i, mae angen osgoi dangosyddion mewnbyn gymaint â phosib.

Mesur dysgu (ansawdd academaidd):

Amcan yr ymarfer hwn yw datblygu proses i fonitro a gwella system AHO Cymru. Mae pwyso a mesur adnoddau asesu perfformiad mewn awdurdodaethau eraill yn datgelu llw o bethau y gellir eu monitro a'u mesur gan adnoddau o'r fath, popeth o nifer y myfyrwyr, cyfadrannau a staff, i refeniw o amrywiol ffynonellau, i wariant o bob math, i nifer y graddedigion, i ganlyniadau'r

⁸ Datgeliad llawn, rwyf ar Fwrdd Cyfarwyddwyr y Council for Aid to Education a ddatblygodd ac sy'n rhannu'r CLA.

⁹ Ond nid yn amhosib. Yr hyn y mae'n ei olygu yw cynllunio'r dangosydd sy'n dangos cyfraniad sefydliad neu sector AHO o'i gymharu â'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl fel arall neu sy'n amlwg yn y rhai y tu allan i ddylanwad yr AHO hwnnw (ee cyfradd cyflogaeth graddedigion AHO o gymharu â'r rhai heb gymhwyster AHO).

farchnad lafur, ac ati. Mae adolygiad cyflym o'r ymarfer meincnodi a hyrwyddir gan yr OECD yn datgelu cyfoeth o fesurau a dangosyddion posib y gellid eu mabwysiadu. Yr wyf yr un mor siŵr bod y sefydliadau yn sector AHO Cymru eisoes yn adrodd ar sawl agwedd ar eu hymddygiad, eu perfformiad a'u gweithrediad ar hyn o bryd.¹⁰

Eto, er mai'r pwnc dan sylw yw sefydliadau addysg, mae'n eironig cyn lleied o gynlluniau monitro ac asesu perfformiad sy'n mesur **rôl** hanfodol sefydliadau addysgol mewn gwirionedd, h.y. ansawdd academiaidd a dysgu myfyrwyr. Yn aml, mesurir y prosesau dysgu (pa gyrsiau, maint dosbarthiadau, math o dechnegau pedagogiaidd a ddefnyddir ac ati) ond nid yw'r rhain yn cynnig fawr ddim tystiolaeth o ansawdd y profiad dysgu na'r sgiliau a'r wybodaeth a ddysgir gan fyfyrwyr (er nad yw hyn yn atal aml i arweinydd academiaidd rhag gwneud tybiaethau a datganiadau heb eu profi am yr hyn y mae eu myfyrwyr yn ei wybod, yr hyn y gallant ei wneud, a'r sgiliau a'r cymwyseddau maent wedi'u caffael). Weithiau mae yna fesurau dysgu ac ansawdd academiaidd dirprwyol (ee cofnodi cyfartaleddau a chyfraddau graddio) ond mesurau dysgu anuniongyrchol yw'r rhain ar y gorau a chydabyddir yn aml y gellir llurgunio'r mesurau hyn.¹¹

Mae'n anhygoel i mi na fyddai system monitro perfformiad gyfoes sydd wedi'i chynllunio i wella system AHO yn cynnwys mesuriadau clir ac uniongyrchol o'r hyn y mae myfyrwyr yn ei ddysgu a'r sgiliau a'r cymwyseddau y maent wedi'u llwyddo i'w caffael o ganlyniad i'w haddysg ôl-orfodol. Onid rhan o gymhelliant Llywodraeth Cymru wrth gychwyn yr ymarfer hwn yw sicrhau bod ei system AHO yn darparu'r sgiliau a'r cymwyseddau sydd eu hangen ar fyfyrwyr iddynt gael swyddi da, cyfrannu at economi fwy cadarn a chystadleuol ac, yn gyffredinol, gyfrannu at Gymru sifil, flaengar gydag ansawdd bywyd y mae ei ddinasyddion yn ei ddisgwyl ac y dylent ei fwynhau. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i rai o'r dangosyddion yn yr adnodd monitro perfformiad fesur y sgiliau a'r cymwyseddau y tybir sy'n angenrheidiol i raddedigion AHO i wneud cyfraniad o'r fath a hynny mewn modd uniongyrchol a chlir.

Mae'n gyfnod o newid sylweddol mewn addysg uwch. Ond, os oes un peth y gwyddom heb os – a hynny heb leihau neu danseilio mewn unrhyw ffordd y pwysigrwydd a roddir ar gaffael y wybodaeth a'r cynnwys sydd eu hangen ar fyfyrwyr i lwyddo - mae addysg gyfoes, berthnasol a blaengar yn pwysleisio'n gynyddol bwysigrwydd sgiliau a chymwyseddau angenrheidiol i lwyddo mewn bywyd a gwaith – megis meddwl beirniadol, datrys problemau, llythrennedd, rhifedd, cyfathrebu ac ati – ac yn dyfarnu graddau i fyfyrwyr sy'n meddu ar y cymwyseddau a'r sgiliau hyn. Mae'r eiriolaeth gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru (fel y mae dogfennau a phapurau ymgynghori eraill y llywodraeth) yn dadlau'r achos dros arwyddocâd sgiliau a chymwyseddau yn huawdl ac yn rymus.

Rhaid i unrhyw ddull o'r fath sy'n mesur ansawdd academiaidd, mesur sgiliau a'r hyn y mae myfyrwyr yn ei ddysgu gael ei gynllunio mewn ffordd sy'n ystyried y sefyllfa fel y mae, sef bod sefydliadau AHO yn amrywio o ran y myfyrwyr yr ymrestrant. Ni ellir cosbi sefydliadau sy'n derbyn myfyrwyr anodd neu rai sydd heb baratoi cystal am wneud hynny. Mae hyn yn dangos

¹⁰ Er nad wyf wedi ei gweld yn bersonol, ni fyddwn yn synnu pe bai yna ryw daenlen enfawr ar ryw weinydd yn y Weinyddiaeth sy'n cynnwys yr holl ddata hwn, fel mewn llywodraethau eraill.

¹¹ Yn waeth fyth, mewn rhai achosion gall y defnydd o fesurau dirprwyol danseilio neu o leiaf leihau ansawdd gan y gall sefydliadau ymgymryd â gweithgareddau, megis gostwng safonau er mwyn cwblhau gradd neu dderbyn y myfyrwyr hynny â graddau uchel yn unig, sy'n symud y system ymhellach oddi wrth nodau'r system mewn gwirionedd.

pa mor bwysig yw hi fod y mesuriadau hyn yn rhai “gwerth ychwanegol”, neu yn eirfa HECFE, yn asesu enillion dysgu. Mae'r cysyniad o fesurau gwerth ychwanegol yn rhan annatod o'r ffordd o feddwl yng Nghymru eisoes fel yr adlewyrchir yn y ddogfen ymgynghori *Mesurau cyson ar gyfer dysgu ôl-16 yng Nghymru*.

Rwy'n cydnabod y dadleuon ynghylch yr anawsterau o ran mesur enillion dysgu, ond nid yw'r dasg hon yn fwy anodd nac amhosib yn ei hanfod na mesur, er enghraifft, ansawdd gwaith ymchwil. Rwy'n cydnabod hefyd fod angen adnoddau i wneud mesuriadau o'r fath yn dda, ond, yn fy marn i, mae'n fuddsoddiad angenrheidiol sy'n werth ei wneud. Byddwn yn tynnu sylw darllenwyr at gyhoeddiad diweddar sy'n disgrifio dull o fesur yn uniongyrchol y gwelliant yn y sgiliau y mae myfyrwyr yn eu caffael mewn addysg ôl-uwchradd¹² ac at lyfr sydd ar ddod sy'n disgrifio'r gwahanol ddulliau y gellir eu defnyddio i fesur ansawdd academiaidd.¹³

Cywirdeb data:

Dim ond os yw'r data a'r wybodaeth a gyflwynir ganddo'n gywir y mae adnodd monitro ac asesu perfformiad yn ddefnyddiol, waeth pa mor ystyrlon a pherthnasol y gallai'r mesurau ymddangos. Os nad oes gan bobl hyder yng nghywirdeb y data, ni fydd ganddynt lawer o ffydd yn yr ymarfer mesur perfformiad ac ni fydd ganddynt lawer o hyder mewn unrhyw benderfyniadau neu gamau gweithredu a gymerir o ganlyniad iddo. Mae hyn yn ymwneud â'r ddisgyblaeth, y gofal a'r trylwyrdd sy'n gysylltiedig â'r gwaith llenwi data a'r adnodd perfformiad yn cael eu casglu, a hyder bod y mesurau a adroddir yn gywir ac yn wir.

Arfer gorau yn y cyswllt hwn yw peidio dibynnu ar y wybodaeth a ddarperir gan y sefydliadau'n unig ond i gael parti arall i asesu neu archwilio dilysrwydd y cyflwyniad gan y sefydliad. Mae'r arfer a ddefnyddir gan Estyn ar hyn o bryd i hyfforddi aseswyr sy'n gwirio cywirdeb y data a adroddir iddo yn un y gallai'r llywodraeth neu'r CADYG ei ymestyn i fonitro perfformiad pob sector yn y system addysg ôl-uwchradd. Fel arall, gallai'r CADYG gynnal archwiliadau manwl neu ymweld â sefydliadau i wirio'r wybodaeth a gyflwynwyd. Eto, rwy'n gwerthfawrogi gofynion adnoddau proses gwirio data o'r fath, ond ymddengys i mi ei bod yn werth chweil os yw pobl yn mynd i fod yn hyderus am yr ymarfer.

Beth i'w fesur?

Mae yna gadwyn resymegol i'r broses o ddatblygu adnodd monitro a gwerthuso perfformiad defnyddiol. Yn gyntaf, mae'r awdurdodaeth yn nodi'r nodau a'r amcanion y mae'n gobeithio eu cyflawni. Gwneir hyn gan y llywodraeth sy'n nodi'r nodau cyhoeddus hyn fel rheol. Unwaith y bydd y nodau a'r amcanion hyn wedi eu mynegi'n glir, mae angen nodi dangosyddion priodol wedyn sy'n caniatáu ar gyfer monitro a gwerthuso cyfraniad sefydliadau, megis y rheiny yn y system AHO, tuag at gyflawni'r nodau hyn. Mae'r ymarfer mesur perfformiad nid yn unig yn olrhain cynnydd tuag at nodau ond yn nodi hefyd pryd mae angen addasiadau yn ystod y cyfnod dan sylw mewn polisi neu gamau gweithredu os nad oes cynnydd priodol.

¹² Harvey P. Weingarten a Martin Hicks. *Measuring the performance of the Ontario (Canada) postsecondary system: Measuring only what matters*. Papur a gyflwynwyd yng Nghynhadledd Ymchwilwyr Proses Bologna. Bucharest, Romania, Tachwedd 2017. <http://fohe-bprc.forhe.ro/>

¹³ Assessing quality in postsecondary education: International perspectives. Harvey P. Weingarten, Martin Hicks ac Amy Kaufman (Gol.). McGill-Queens University Press, Chwefror 2018.

Gellid cynllunio adnodd perfformiad sy'n mesur bron popeth y gellid dychmygu ei fesur yn y system AHO (ac mae strategaethau gwerthuso perfformiad o'r fath i'w cael mewn rhai awdurdodaethau). Mae hyn yn arwain at ymarfer annelwig a dibwrpas. Yr adnoddau perfformiad mwyaf gwerthfawr a defnyddiol yw'r rhai sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau dymunol y system ôl-uwchradd. Felly, ystyriaeth o bwys wrth gynllunio adnodd monitro a gwerthuso perfformiad yw eglurder o ran pa ganlyniadau sydd bwysicaf. Yn fyr, dylai'r adnodd perfformiad fesur yr hyn sydd bwysicaf, ac ni ddylai'r rhestr honno fod yn rhy hir.

Yn ei Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei saith nod llesiant:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu;
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r rhestr yn nodi'r hyn sy'n bwysicaf i Gymru. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir hefyd fod dyletswydd ar gyff cyhoeddus yng Nghymru i fonitro, rheoli ac adrodd ar eu perfformiad o ran cyflawni'r amcanion llesiant.

Mewn rhai awdurdodaethau, mae datblygiad adnodd perfformiad yn cael ei lesteirio i raddau helaeth gan y ffaith nad yw'r llywodraeth wedi mynegi'r nodau sydd ganddi. Mae'n anodd datblygu adnodd perfformiad pan nad oes eglurder ynghylch yr hyn y gobeithir ei gyflawni. Mae Cymru wedi osgoi'r broblem hon. Felly, mae'r nodau sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn cynrychioli'r maen prawf, neu'r sylfaen, ar gyfer datblygu'r adnodd mesur a gwerthuso perfformiad.

Mewn egwyddor, credaf y gallwn gyflwyno dadl ynghylch y ffordd y mae system AHO yn cyfrannu at bob un o'r nodau hyn. Ond, byddai'r gadwyn o honiadau a rhagdybiaethau a fyddai'n ofynnol i wneud hyn yn ei gwneud hi'n anodd i mi weld sut y gellid cynllunio adnodd perfformiad i nodi cyfraniad sefydliadau AHO at y nodau sydd yn y Ddeddf. Yn lle hynny, rwy'n awgrymu, os yw'r nodau hyn i'w cyflawni, y byddai angen i'r system AHO arddangos nifer o nodweddion, a'r nodweddion hyn sy'n sail i'r gwaith o ddatblygu adnodd monitro a gwerthuso perfformiad.

Yn benodol, er mwyn cyflawni'r saith nod, rwy'n awgrymu bod angen system AHO ar Gymru sy'n:

- Darparu mynediad a chyfle cyfartal i bob myfyriwr
- Cynhyrchu myfyrwyr graddedig sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i lwyddo mewn bywyd a gwaith
- Cefnogi a gwella'r cymunedau y maent ynddynt
- Creu personél cymwys iawn, ymchwil ac arloesedd sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi economi gystadleuol sy'n seiliedig ar wybodaeth
- Cynnwys sefydliadau sy'n perfformio i safon uchel sy'n apelio at fyfyrwyr

I mi, mae'n haws dychmygu cynllunio adnodd perfformiad a nodi mesurau a dangosyddion defnyddiol wrth feddwl ar y lefel hon, yn hytrach na cheisio cynllunio adnodd perfformiad a dewis dangosyddion ar sail yr eirfa a ddefnyddir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ond, rwy'n gyfforddus gyda'r dull hwn gan fy mod yn credu y byddai'r priodoleddau a'r nodweddion a nodir uchod yn arwain at y nodau a'r canlyniadau a nodir yn y Ddeddf. A, beth bynnag, mae rhai o'r nodau hyn yn amcanion allweddol sy'n ysgogi rhai camau neu ystyriaethau allweddol diweddar gan y llywodraeth megis gweithredu argymhellion Diamond er mwyn arwain at fynediad mwy cyfartal a chreu un corff clustogi sy'n uno gyda'r nod o gael system AHO sy'n fwy cynaliadwy ac yn cynhyrchu myfyrwyr graddedig gyda'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n eu gwneud yn fwy parod am waith ac i fod yn gynhyrchiol.

Mae'r rhestr uchod yn cynnwys fy syniadau lefel uchel presennol am y parthau neu feysydd y dylid eu cynnwys mewn adnodd perfformiad i Gymru. Wrth gwrs, holl ddiben y papur trafod hwn yw cael eich adborth ar y rhestr arfaethedig hon ac i chi awgrymu unrhyw newidiadau neu addasiadau.

O ran cyflawnrwydd, mae'r Ddeddf yn nodi pum egwyddor hefyd i lywio'r gwaith a'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni'r saith nod ar gyfer Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys ystyried yr hirdymor, canolbwyntio ar atal, dull integredig, cydweithio ag eraill i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir a chynnwys poblogaethau amrywiol. Mae'r egwyddorion hyn yn ddefnyddiol iawn hefyd wrth lunio cynllun yr adnodd perfformiad a sut y gellid cynnal y broses o fesur perfformiad, yn enwedig y gofyniad i feddwl ar gyfer yr hirdymor.

Symud ymlaen:

Mae cynllunio system monitro a gwerthuso perfformiad AHO yn fater o bwys mawr. O'i wneud yn iawn, mae ganddo'r gallu i wella'r system a darparu gwell canlyniadau i'r cyhoedd ac i fyfyrwyr ac i wneud y gorau o gyfraniad pob sefydliad yn y system AHO at y nodau a ddymunir. O'i wneud yn wael, mae ganddo'r potensial i greu cur pen biwrocraidd a gweinyddol o'r radd flaenaf sy'n arwain at ddim gwelliant, dim cynnydd tuag at y nodau a ddymunir a rhwystredigaeth a diffyg traul.

Mae'r llywodraeth, sefydliadau, myfyrwyr a'r cyhoedd eisiau'r canlyniad cyntaf o adnodd perfformiad, nid yr ail. Nid oes y fath beth ag adnodd monitro a gwerthuso perfformiad perffaith ac nid oes unrhyw ddangosyddion perffaith. Ond, gellir datblygu adnodd sy'n ddefnyddiol ac yn gyfrwng i gael y canlyniadau gwell mae pawb yn dymuno'u gweld.

Ar wahân i'r materion a drafodir yn gynharach yn y papur hwn, mae yna nifer o bethau rhyng-gysylltiedig eraill sy'n angenrheidiol er mwyn cyrraedd y sefyllfa well hon.

Yn gyntaf, amser. Nid oes modd cynllunio adnodd synhwyrol dros nos, a hyd yn oed ar ôl ei ddatblygu rhaid monitro ei ddefnyddioldeb a'i effeithiolrwydd yn gyson ac, os oes angen, caiff yr adnodd ei ddiwygio. Bydd yr ymarfer i gynllunio adnodd monitro ac asesu perfformiad yn cymryd mwy o amser nag y mae'r llywodraeth ei eisiau, ond mae'n rhaid iddo gymryd llai o amser na'r hyn y byddai'r sefydliadau yn ei ddymuno. Ar ddiwedd y dydd, mae'r morthwyl yn nwylo'r llywodraeth (ymadrodd sy'n deillio o gamp cwrlo, sy'n boblogaidd yng Nghanaada, sy'n golygu bod yr awdurdod ganddynt i wneud i bethau ddigwydd a gorfodi'r hyn y maent am ei weld yn digwydd yn y pen draw). Os yw'r broses o ddatblygu'r adnodd perfformiad angenrheidiol hwn yn symud yn rhy araf, traddodiad a dull gweithredu llywodraethau yw cynllunio un eu hunain a gorchymyn iddo gael ei ddefnyddio. Rhaid i'r Llywodraeth fod yn fodlon gyda

chyfranogiad ac ymgysylltiad gwirioneddol sefydliadau AHO a'u harweinwyr i osgoi hyn rhag digwydd.

Yn ail, bydd yr adnodd monitro ac asesu perfformiad gorau'n deillio o ymgysylltiad dilys, cydweithredol a seiliedig ar ymddiriedaeth rhwng y llywodraeth (neu'r awdurdod dirprwyedig, y CADYG) a'r sefydliadau AHO. Mae hyn yn golygu trafodaethau didwyll ac agored ynghylch pwrpas yr ymarfer mesur perfformiad, sut y caiff ei weithredu, pa ddangosyddion i'w defnyddio, a sut y bydd y data'n cael ei ddefnyddio. Nid yw'r sgysiau hyn yn ddymunol bob amser. Ond does dim all gymryd eu lle.

Yn drydydd, y bobl iawn. Bydd rhyw fath o adnodd monitro ac asesu perfformiad yn cael ei gynllunio a'i ddefnyddio yn y pen draw. Rhaid i'r bobl sy'n ei gynllunio a'i weinyddu feddu ar bersbectif, arddull a gallu sy'n briodol i bwrpas yr adnodd. Yn fy marn i, heblaw am feddwl agored a lefel uchel o ddealltwriaeth o amrywiaeth sefydliadau AHO , cymhlethdod systemau addysg uwch, a'r dasg anodd o gydbwysu rolau a safbwyntiau sefydliadau o gymharu â llywodraethau o gymharu â myfyrwyr ac ati, mae'n rhaid i arweinwyr y gyfundrefn berfformio fod yn feistri corn ar ddata, deall rôl polisi a gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth, bod yn sensitif i'r cyd-destun a bod yn amheus i raddau priodol o ddefnyddio rhifau mewn ffordd ddall.

Yn bedwerydd, yr adnoddau cywir. Er mwyn cynllunio adnodd perfformiad da, y prosesau mesur ac adrodd a dadansoddi'r hyn y mae popeth yn ei olygu, a beth i'w wneud ynghylch hynny, nid yn unig mae angen pobl â'r doniau a'r cefndir cywir, ond hefyd arian. Mae hyn yn arbennig o wir os nad yw'r dangosyddion a ddymunir (oherwydd mai'r rhain yw'r rhai cywir i fynegeio canlyniad penodol) wedi'u mesur eto ac y bydd angen adnoddau i greu'r gallu i'w cael (mae hyn yn wir yn aml os oes angen mesurau uniongyrchol o'r hyn a ddysgir).

Yn gryno:

1. Mae gan y Llywodraeth rôl ddilys, os nad rhwymedigaeth, i fonitro a gwerthuso perfformiad ei sector AHO.
2. Prif ddiben yr ymarfer mesur perfformiad hwn yw gwella'r system AHO yn barhaus a gwneud y gorau o gyfraniad sefydliadau AHO a'r system AHO i gyflawni nodau cyhoeddus a nodwyd.
3. Mae'n rhaid i'r adnodd monitro a gwerthuso perfformiad barchu, addasu a chael ei deilwra i fandadau a chenadaethau unigryw'r amrywiol sectorau a sefydliadau o fewn y system AHO. Mae hyn yn gofyn am eglurder ynghylch disgwyliadau'r gwahanol sectorau a sefydliadau yn y system AHO.
4. Dylai'r Llywodraeth ystyried rolau priodol y CADYG arfaethedig a'r llywodraeth ei hun yn y broses o fonitro a gwerthuso perfformiad, yn enwedig pwy sy'n rheoli'r adnoddau a ddyrennir i sefydliadau.
5. Dylai'r adnodd monitro a gwerthuso perfformiad gael ei gynllunio i asesu perfformiad sefydliadau o fewn y system AHO. Mae eto i'w benderfynu pwy fydd yn gyfrifol am gydgrynhoi data'r sefydliadau er mwyn gweld perfformiad cyffredinol y system.
6. Dylai'r dangosyddion penodol a ddewisir yn y pen draw ar gyfer mesur: barchu amrywiaeth cenhadaeth a mandadau sefydliadau; eu hystyried yng ngoleuni dangosyddion perfformiad y system orfodol; caniatáu i berfformiad Cymru gael ei gymharu ag awdurdodaethau perthnasol eraill, yn enwedig, ond heb fod yn gyfyngedig i'r DU, a chael eu cynllunio i ddangos "gwerth ychwanegol" neu "gynnydd".

7. I'r graddau mwyaf posib, dylai dangosyddion fesur allbynnau a chanlyniadau ac anwybyddu mewnbynnau.
8. Mae mesur yr hyn a ddysgir yn elfen hanfodol o unrhyw gynllun mesur perfformiad AHO.
9. Rhaid i'r data a gesglir fod yn ddibynadwy, cael ei wirio a'i ddilysu.
10. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cyflawni swyddogaeth maen prawf a sylfaen ar gyfer penderfyniadau ynghylch yr hyn y dylai'r adnodd monitro a gwerthuso perfformiad ei fesur.
11. Dylai'r adnodd mesur perfformiad ganolbwyntio ar y cwestiynau canlynol am AHO Cymru: a yw'n rhoi mynediad a chyfle cyfartal i bob myfyriwr; a yw'n cynhyrchu myfyrwyr graddedig sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth i lwyddo mewn bywyd a gwaith; a yw'n cefnogi a gwella'r cymunedau y maent ynddynt; yn creu personél cymwys iawn, ymchwil ac arloesedd sy'n cefnogi economi sy'n seiliedig ar wybodaeth, ac; yn cynnwys sefydliadau sy'n gynaliadwy, sy'n perfformio i safon uchel ac sy'n apelio at fyfyrwyr.